# Tegwch, Amrywiaeth a Chynhwysiad ym maes Darlledu

2023/24

**Adroddiad**

Cyhoeddwyd 4 Rhagfyr 2024

# Cynnwys

## Adran

Trosolwg ........ 3

Cyd-destun – mae amrywiaeth yn bwysicach nag erioed ........ 5

Y prif ffigurau ........ 7

Mae data yn dal yn bwysig ........ 14

Y darlun mawr: data yn ei gcyd-destun ........ 18

Y camau nesaf: ymdrech ar draws y diwydiant ynghyd ag atebolrwydd unigolion ........ 28

## Atodiad

A1. Tablau data ........ 29

A2. Sut rydym yn adrodd ar y data ........ 39

# Trosolwg

## Beth rydym wedi ei ganfod – yn gryno

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae newid wedi parhau i darfu ar y sector darlledu, wrth i arferion gwylio symud ymhellach tuag at wasanaethau ffrydio ac wrth i waith cynhyrchu rhaglenni arafu yn dilyn y cynnydd ar ôl Covid. Wrth ganolbwyntio o'r newydd ar gadw gweithwyr medrus yn y diwydiant, mae'r cwestiwn ynghylch pwy sydd – a phwy sydd ddim – yn gweithio ym maes darlledu yn bwysicach nag erioed. Mae ein hadroddiad ar degwch, amrywiaeth a chynhwysiad ("TegACh") ym maes darlledu ar gyfer 2023-24 yn awgrymu bod cynnydd tuag at gael gweithlu mwy cynrychioliadol wedi arafu mewn rhai meysydd, gyda rhai grwpiau yn dal i fod heb gynrychiolaeth ddigonol naill ai ar draws y gweithlu (pobl anabl a dosbarth gweithiol) neu ar lefelau uwch (grwpiau ethnig lleiafrifol). Yn benodol:

- Nid oes gan rai grwpiau gynrychiolaeth ddigonol mewn rolau gwneud penderfyniadau a golygyddol allweddol ar lefel uwch, yn enwedig ym maes radio. Er enghraifft, ym maes radio[1] nid yw menywod ond yn cyfrif am 36% o bobl mewn rolau comisiynu/rhaglennu, ac mae cynrychiolaeth pobl o grŵp ethnig lleiafrifol yn y rolau hyn yn rhy fach i ni adrodd arnynt.
- Dim ond 11% o'r rhai mewn swyddi uwch reolwyr sy'n dod o grwpiau ethnig lleiafrifol (ar draws y diwydiant yn ei gyfanrwydd).
- Mae 'drws troi' ar gyfer rhai grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Er enghraifft, mae cyfran uwch o'r rhai sy'n ymuno â darlledwyr yn dod o grŵp ethnig lleiafrifol, ond mae hyn hefyd yn wir am y rhai sy'n gadael.

Fodd bynnag, gwelwn dueddiadau addawol mewn perthynas â diwylliant sefydliadol a ffocws ar gyfleoedd i grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol i gael dyrchafiad/camu ymlaen. Er enghraifft, mae'n bosibl bod y ffaith bod cyfran uwch o fenywod wedi cael dyrchafiad y llynedd wedi cyfrannu at gynnydd bach yn nifer yr uwch-weithwyr benywaidd eleni.

Rydym hefyd yn croesawu mentrau ar draws y diwydiant fel strategaeth bum mlynedd ScreenSkills a'i bartneriaeth gydweithredol newydd â'r Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol, a fydd yn cynyddu amrywiaeth ar draws diwydiannau sgrin y DU.

Er mwyn adeiladu ar hyn, rydym am i ddarlledwyr unigol nid yn unig gasglu data am amrywiaeth, ond ei ddefnyddio fel sail ar gyfer camau gweithredu wedi'u targedu lle mae problemau anodd yn parhau, gyda chymorth uwch arweinwyr.  Byddwn yn parhau â'n hymgyrch i gael gwell data economaidd-gymdeithasol lle nad yw'n cael ei gasglu'n barod. Rydym yn credu y gall gwybodaeth o'r amrediad o ddata amrywiaeth hwn fod yn adnodd hanfodol i sicrhau sector darlledu cynaliadwy sy'n cynhyrchu cynnwys dibynadwy ar gyfer y DU gyfan.

Yn adroddiad eleni, rydym yn rhoi cipolwg ar y diwydiant fel y mae yn 2024 – o ran pwy sy'n gweithio ynddo a beth mae darlledwyr yn ei wneud i gefnogi gweithlu amrywiol. Rydym yn mynd ymlaen i ystyried tri maes lle gall y data TegACh rydym wedi'i gael gan ddarlledwyr daflu goleuni ar faterion allweddol sy'n peri pryder ar hyn o bryd ar draws y sector:

[1] Ac eithrio'r BBC (gweler paragraff 1.4 am ragor o fanylion).

- Cynhyrchu cynnwys y gellir ymddiried ynddo (3.2 i 3.12)
- Cynnal diwydiant cynaliadwy (3.13 i 3.21)
- Datblygu amgylchedd gwaith deniadol a chynhwysol (3.22 i 3.33)

# Y Cyd-destun – mae amrywiaeth yn bwysicach nag erioed

## Mae'r flwyddyn ddiwethaf wedi profi ymrwymiad y diwydiant mewn perthynas â TegACh, ond mae ein data'n awgrymu ei fod yn hanfodol i fusnes

Mae'r adroddiad hwn yn ystyried cyfnod pan wynebodd y sector darlledu gyfnod o newid na welwyd ei debyg o'r blaen, gyda chynulleidfaoedd yn dal i gefnu ar gyfryngau darlledu traddodiadol[2], y gwaith cynhyrchu yn arafu, gan arwain at ddiffyg cyflogaeth, a phrinder sgiliau yn bygwth twf a chreu swyddi.

Yn yr amgylchedd hwn, rydym wedi clywed pryderon[3] bod TegACh wedi dod yn ymarfer 'ticio blwch' ar y gorau, ac yn foethusrwydd diangen ar y gwaethaf. Ac eto, mae'r data a ddisgrifir yn yr adroddiad hwn yn awgrymu bod darlledwyr yn parhau i gymryd TegACh o ddifrif ac y gellir, ac y dylid, ystyried hyn yn offeryn hanfodol i adeiladu sector cynaliadwy gyda'r seilwaith a'r sgiliau i ddenu buddsoddiad tymor hwy.

## Roedd ein hadroddiad y llynedd yn tynnu sylw at dair blaenoriaeth ar gyfer diwydiant

| Blaenoriaeth | Beth mae darlledwyr wedi'i wneud? | Beth mae Ofcom wedi'i wneud i gefnogi? |
|---|---|---|
| **1: Dylai darlledwyr fanteisio i'r eithaf ar y gwerth a'r ddealltwriaeth y gall eu data TegACh eu darparu** | Mae'r bwlch data yn lleihau ond rydym yn dal i fod yn y tywyllwch i raddau helaeth o ran cefndir economaidd-gymdeithasol gweithwyr darlledu. Gweler paragraff 2.3. | ➢ Wedi mynd ynglŷn â hyn gyda darlledwyr sydd â bylchau data sylweddol (gweler paragraff 2.4)<br>➢ Wedi mireinio ein hofferyn hunanasesu mewn ymateb i adborth ar fersiwn beta |
| **2: Gall uwch arweinwyr wneud mwy i hybu newid** | Mae rhai gwelliannau o ran cynrychiolaeth menywod a phobl anabl ymysg uwch reolwyr ond nid ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol o hyd. Mae hyn yn wir am bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol hefyd (lle nad oes newid wedi bod). Nid yw rhai uwch arweinwyr yn ymgysylltu'n ddigon gweithredol o hyd mewn perthynas â TegACh. Gweler paragraffau 3.30 a 3.31. | ➢ Wedi parhau i ddadansoddi data ar uwch reolwyr, gan gynnwys cynrychiolaeth ar lefelau uwch (gweler paragraffau 3.8 a 3.9)<br>➢ Wedi defnyddio'r adroddiad hwn i ystyried a allai dyrchafiadau y llynedd fod wedi effeithio ar gyfansoddiad swyddi uwch reoli eleni (gweler para 3.26)<br>➢ Wedi casglu data ar ymgysylltiad uwch arweinwyr â TegACh |

[2] Gweler, er enghraifft, adroddiad Cyfryngau'r Genedl 2024 Ofcom.
[3] Gweler er enghraifft: Role models: responsibility for diversity goes beyond DEI departments a Speak-easy: on representation and equity in the UK TV and film industry since 2020

| Blaenoriaeth | Beth mae darlledwyr wedi'i wneud? | Beth mae Ofcom wedi'i wneud i gefnogi? |
|---|---|---|
| **3: Dylai darlledwyr barhau i ganolbwyntio ar gadw a datblygu** | Er ei bod yn ymddangos bod cyfleoedd i ddatblygu yn gwella i grwpiau nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol, mae'r niferoedd yn dal i fod yn anghymesur i ddarlledwyr. Gweler paragraff 3.20 a ffigur 12. | ➢ Wedi hwyluso sgyrsiau, cydweithredu a rhannu arferion gorau |

# Y Prif Ffigurau


## Cipolwg ar y diwydiant darlledu

Ebrill 2023 – Mawrth 2024

**Roedd y data'n cwmpasu dros 44,000 o weithwyr ar draws 44 o ddarlledwyr teledu a radio**

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **44** o ddarlledwyr (gyda >20 o weithwyr) | **44,413** o weithwyr yn y DU | **5,894** o Ymunwyr | **6,833** o Adawyr | **27,104** wedi'u Hyfforddi | **2,908** wedi cael Dyrchafiad |

Yn seiliedig ar ddata gweladwy (ac eithrio rhai anhysbys) = 94% o weithwyr




**Mae'r naw darlledwr mwyaf yn cyfrif am dros 8 o bob 10 gweithiwr yn y DU**

- Gwasanaethau Cyhoeddus y BBC 38%
- ITV 11%
- Sky 14%
- Bauer 3%
- Ch4 3%
- BBC Studios 7%
- Discovery 2%
- Viacom 2%
- Global 4%
- Eraill 16%

**Mae ychydig llai na hanner y gweithwyr wedi'u lleoli y tu allan i Lundain.**

**Llundain 52%** | **48%** Y tu allan i Lundain


| | |
|---|---|
| Bauer | 70% |
| ITV | 69% |
| BBC Public Services | 55% |
| Sky | 46% |
| Channel 4 | 45% |
| BBC Studios | 36% |
| Global | 21% |
| Viacom | <1% |
| Discovery | - |

**27%** o weithwyr yn dod o gefndir dosbarth gweithiol (39% ydy meincnod y DU)

## Dadansoddiad o weithwyr yn ôl nodwedd

| | Menywod | Ethnig Lleiafrifol | Anabl |
|---|---|---|---|
| Gweithwyr y DU | 50 | 18 | 11 |
| Uwch reolwyr | 43 | 11 | 9 |
| Ymunwyr | 55 | 26 | 14 |
| Gadawyr | 52 | 23 | 11 |
| Meincnod y DU | 48 | 16 | 18 |

| | 50 oed a hŷn | LHD+ | Crefyddol |
|---|---|---|---|
| Gweithwyr y DU | 24 | 11 | 44 |
| Uwch reolwyr | 45 | 8 | 49 |
| Meincnod y DU | 33 | 3 | 60 |




**Sylwch, yma a thrwy gydol yr adroddiad hwn, rydym wedi cyfuno 'Dwyrain Asiaidd' a 'De Asiaidd' fel 'Asiaidd'. Mae crefydd 'arall' yn cynnwys Bwdhaidd, 'Crefydd arall' a'r rhai a ddewisodd 'Heb grefydd' ond ni chafodd ei nodi. Defnyddiwn y categorïau hyn i ganiatáu i ni gymharu'r ffigurau hyn â meincnodau poblogaeth y DU.*

1.1 Mae gan Ofcom ddyletswyddau cyfreithiol i hyrwyddo cyfle cyfartal yn y sector darlledu – edrychwch ar ein gwefan a'n hadroddiad methodoleg i gael rhagor o fanylion. Rydym yn mynnu bod darlledwyr yn darparu gwybodaeth mewn perthynas â nodweddion penodol (rhyw, hil/ethnigrwydd, ac anabledd). Rydym hefyd yn gofyn i ddarlledwyr ddarparu, yn wirfoddol, gwybodaeth am nodweddion eraill (fel crefydd a chyfeiriadedd rhywiol), gweithwyr llawrydd, ac am eu harferion comisiynu mewn perthynas â chwmnïau cynhyrchu annibynnol. Mae'r wybodaeth wirfoddol hon yn bwysig gan ein bod yn cydnabod bod cyfle cyfartal i weithwyr darlledu yn dibynnu ar ddiwydiant sy'n fwy cyfartal, amrywiol a chynhwysol ar y cyfan.

1.2 Mae'r tablau isod yn datgelu'r prif ffigurau o'r arolwg o'r gweithlu eleni. Rydym yn dangos data ar gyfer yr holl weithwyr darlledu yn y DU, o'i gymharu â chyfartaleddau'r boblogaeth weithio yn y DU a sut mae data wedi newid ers y llynedd. Gellir dadansoddi'r data a'r tueddiadau ymhellach yn ein hadroddiad data rhyngweithiol ac yn Atodiad 1.

1.3 Drwy gydol yr adroddiad hwn, mae'r holl ffigurau a gofnodwyd ar gyfer gweithwyr darlledwyr yn cyfeirio at ganran *y gweithwyr hynny y cafodd eu gwybodaeth ei rhannu ag Ofcom*, (yn hytrach na bod yn seiliedig ar yr holl weithwyr). Rydym yn cyfeirio at hyn fel rhywbeth sy'n seiliedig ar ddata 'gweladwy'. Rydym yn defnyddio'r dull hwn oherwydd ein bod yn credu ei fod yn rhoi ymdeimlad mwy ystyrlon i ni o gyfansoddiad y diwydiant yn ei gyfanrwydd (yn enwedig lle nad yw rhannau mawr o'r gweithlu wedi rhannu gwybodaeth) ac yn caniatáu i ni gymharu â'r boblogaeth genedlaethol ('meincnodau'). Mae rhagor o wybodaeth am sut rydym yn adrodd ar y data yn yr adroddiad hwn ar gael yn Atodiad 2 ac yn ein hadroddiad methodoleg.

1.4 Nid oes modd cymharu'r ffigurau yn y tablau isod â'r tablau cyfatebol yn adroddiad y llynedd. Ar gyfer cais am ddata eleni, am y tro cyntaf, ni wnaethom fynnu bod darlledwyr sy'n darparu gwasanaethau teledu a radio yn ymateb ar wahân i'n harolygon. Mae hyn yn adlewyrchu natur newidiol rolau yn y sector cyfryngau, lle mae rhai darlledwyr yn darparu cynnwys i gynulleidfaoedd ar draws nifer o lwyfannau gwahanol (teledu sy'n cael ei ddarlledu, ar-alw, radio, podlediad, cynnwys gwe, ac ati). Darparodd y BBC un ymateb i ymdrin â'i holl weithlu gwasanaeth cyhoeddus ar y sail nad yw'r gweithlu, yn ymarferol, yn rhannu'n daclus yn rhai sy'n gweithio ar deledu neu radio yn unig. O ystyried bod ffigurau gweithlu'r BBC ar gyfer teledu yn y flwyddyn flaenorol yn sylweddol uwch na radio[4], rydym wedi cynnwys yn ein canfyddiadau ffigurau'r BBC yn yr ymatebion i'r arolwg o'r gweithlu teledu ac wedi'u heithrio o'r ymatebion i'r arolwg o'r gweithlu

[4] Yn ei ymateb i'n harolwg gweithlu yn 2023, dywedodd y BBC fod 12,588 o weithwyr yn y diwydiant teledu a 3,717 yn y diwydiant radio yn y DU.

radio.[5] Mae'r holl ffigurau ar gyfer 2022/23 a nodir yn yr adroddiad hwn wedi cael eu hailgyfrifo i adlewyrchu'r ailddyrannu hwn.[6] Drwy gydol yr adroddiad, rydym yn nodi'n glir lle mae ffigurau'n cynnwys neu'n eithrio data'r BBC.

**Ffigur 1: Y prif ffigurau ar gyfer y gweithlu teledu (gan gynnwys cyfanswm gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU)[7]**

| | Meincnod poblogaeth weithio'r DU[8] | Gweithwyr teledu yn y DU 2023/24 | Newid ers 2022/23 | Uwch reolwyr 2023/24 | Newid ers 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Menywod | 48% | 50% | ↑ 1pc | 44% | ↑ 2pc |
| Grŵp Ethnig Lleiafrifol | 16% | 19% | ↑ 1pc | 12% | ■ Dim newid |
| Anabl | 18% | 11% | ↑ 1pc | 9% | ↑ 1pc |
| 50 oed a hŷn | 33% | 25% | ↑ 3pc | 45% | ↑ 3pc |
| LHD+ | 3% | 11% | ↑ 1pc | 8% | ■ Dim newid |
| Crefyddol | 60% | 43% | ↓ 1pc | 48% | ↓ 1pc |
| Cefndir dosbarth gweithiol (yn seiliedig ar alwedigaeth rhieni) | 39% | 27% | ↓ 1pc | Amh. | - - |

**Ffigur 2: Y prif ffigurau ar gyfer y gweithlu radio (heb gynnwys cyfanswm gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU)**

| | Meincnod poblogaeth weithio'r DU | Gweithwyr radio yn y DU 2023/24 | Newid ers 2022/23 | Uwch reolwyr 2023/24 | Newid ers 2022/23 |
|---|---|---|---|---|---|
| Menywod | 48% | 51% | ↑ 1pc | 33% | ↓ 3pc |
| Grŵp Ethnig Lleiafrifol | 16% | 13% | ■ Dim newid | * | * |
| Anabl | 18% | 7% | ■ Dim newid | 7% | ■ Dim newid |
| 50 oed a hŷn | 33% | 16% | ■ Dim newid | 45% | ↓ 3pc |
| LHD+ | 3% | 9% | ↓ 1pc | 8% | ↓ 1pc |
| Crefyddol | 60% | 46% | ↓ 1pc | 53% | ↓ 2pc |
| Cefndir dosbarth gweithiol (yn seiliedig ar alwedigaeth rhieni) | 39% | ** | - - | Amh. | - - |

**yn dynodi bod maint y sampl yn rhy fach. **nid ydym wedi cynnwys data economaidd-gymdeithasol yma oherwydd ychydig iawn o ddata gweladwy (dim ond 3% o weithwyr radio)*

---

[5] Byddai cynnwys cyfanswm ffigurau'r BBC yn nata'r gweithlu radio hefyd yn cynyddu cyfanswm nifer y gweithwyr bum gwaith bron, ac ni fyddai hynny'n caniatáu i ni nodi tueddiadau y tu allan i weithlu'r BBC.
[6] Rydym hefyd wedi diweddaru ffigurau'r llynedd i gynnwys data Bauer Media a gafodd ei ailgyflwyno i ni eleni.
[7] Er ein bod yn defnyddio gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU fel llaw fer, mae'r ffigurau hyn hefyd yn cynnwys staff BBC World Service sy'n darparu cynnwys Saesneg sy'n cael ei ddarlledu ar wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU.
[8] Rydym yn cynnwys y rhain i ddarparu ffigur meincnod, hynny yw, ffigur cymharu sy'n dangos sut mae gweithluoedd/gweithwyr cwmnïau darlledu yn cymharu â phoblogaeth y DU yn ei chyfanrwydd (y boblogaeth oedran gweithio fel arfer). Mae manylion y ffynonellau a ddefnyddir ar gyfer pob meincnod ar gael yn yr adroddiad methodoleg.

1.5 Eleni, rydym yn falch o weld bod darlledwyr wedi darparu mwy o ddata ‘trawstoriadol’, gan ystyried gweithwyr sydd â mwy nag un nodwedd heb gynrychiolaeth ddigonol – gweler Ffigur 3 isod.

1.6 Er bod ein data’n dal yn gyfyngedig, nid yw’n ymddangos bod y canfyddiadau’n dangos unrhyw ffactorau ‘cudd’ o ran effeithio ar gynrychiolaeth grŵp penodol, gan nad yw’n awgrymu bod cael nifer o nodweddion sy’n cael eu tangynrychioli yn arwain at dangynrychiolaeth yn sylweddol yn y diwydiant (gan nad yw cynrychiolaeth pobl anabl, er enghraifft, yn sylweddol is ymysg pobl o grŵp ethnig lleiafrifol nag ymysg pobl wyn).[9] Mae hyn yn rhywbeth y byddwn yn cadw llygad manwl arno, wrth i’r gwaith o gasglu data wella ac wrth i ni ddechrau olrhain data tueddiadau tymor hwy.

1.7 Er mwyn galluogi Ofcom i barhau i ddehongli tueddiadau ar draws y diwydiant, rydym yn annog darlledwyr i rannu a dadansoddi data trawstoriadol. Bydd hyn hefyd yn helpu darlledwyr i ystyried goblygiadau eu data trawstoriadol eu hunain, y gallent efallai ei ddefnyddio’n fanylach (er enghraifft yn ôl lefel swydd a rôl swydd), er mwyn datblygu eu hymdrechion i nodi a mynd i’r afael â ffactorau sy’n effeithio ar dangynrychiolaeth yn eu sefydliadau.

**Ffigur 3: Data trawstoriadol, teledu a radio gyda’i gilydd, 2023/24**

| | Menywod | Meincnod Poblogaeth[10] | Pobl Anabl | Meincnod Poblogaeth[11] | Dosbarth Gweithiol | Meincnod procsi[12] |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Grwpiau ethnig lleiafrifol | 55% | 49% | 10% | 11% | 29% | 45% |
| Gwyn | 50% | 48% | 11% | 19% | 27% | 40% |

## TegACh ar draws y DU

1.8 Am y tro cyntaf y llynedd, fe wnaethom adrodd ar amrywiaeth ystod o ddarlledwyr yn ôl ardal ddaearyddol, gan roi’r darlun mwyaf clir i ni hyd yma o bwy sy’n gweithio ymhle ar draws diwydiant darlledu’r DU.

1.9 Ar lefel llinell uchaf, mae bron i hanner (48%) y gweithwyr wedi’u lleoli y tu allan i Lundain, gyda’r gyfran ychydig yn uwch yn y maes teledu (49%) na radio (46%).[13] Mae hyn yn cymharu â 46% o weithwyr sydd wedi’u lleoli y tu allan i Lundain yn 2023, sy’n dangos mwy o weithluoedd yn symud allan o’r brifddinas.

1.10 Mae Ffigur 4 yn dangos cymhariaeth o ddata daearyddol yn ôl nodwedd, gan ddangos, mewn llawer o ranbarthau, bod gweithwyr o grwpiau ethnig lleiafrifol yn cyd-fynd â’r

[9] Rydym hefyd yn casglu data ar anabledd yn ôl grŵp economaidd-gymdeithasol, sy’n dangos bod pobl anabl sy’n gweithio ym maes darlledu ychydig yn fwy tebygol o fod o gefndir dosbarth gweithiol (30%) o’i gymharu â phobl nad ydynt yn anabl (27%).
[10] Ffynhonnell: Ystadegau’r Swyddfa Ystadegau Gwladol ar y Farchnad Lafur A09: Statws yn y farchnad lafur yn ôl grŵp ethnig, Ebrill 23-Mawrth 24.
[11] Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021.
[12] Ffynhonnell: Cyfrifiad 2021. Sylwch mai procsi yn unig yw’r meincnodau hyn, gan eu bod yn seiliedig ar statws economaidd-gymdeithasol presennol, gan nad yw meincnodau ar gyfer ethnigrwydd yn ôl cefndir economaidd-gymdeithasol ar gael.
[13] Sylwch fod ffigurau teledu yn cynnwys cyfanswm gwasanaeth cyhoeddus y BBC, ac nad yw ffigurau radio yn cynnwys y BBC.

poblogaethau lleol, ac mae rhai ardaloedd lle mae'r gynrychiolaeth ar ei hôl hi (yn enwedig Llundain).

1.11 Mae cynrychiolaeth pobl anabl yn dal ar ei hôl hi o gymharu â chyfartaledd y boblogaeth ar draws pob gwlad a rhanbarth, er ei bod yn fwy amlwg mewn rhai ardaloedd, fel De-orllewin Lloegr, Dwyrain Canolbarth Lloegr, yr Alban a Chymru. Er nad oes meincnodau ar gyfer cefndir economaidd-gymdeithasol rhanbarthol ar gael, gallwn ddefnyddio statws economaidd-gymdeithasol presennol fel procsi, sy'n dangos ei bod yn ymddangos bod rhai ardaloedd yn benodol yn methu cyrraedd darpar weithwyr dosbarth gweithiol, gan gynnwys yng Nghymru a De-ddwyrain Lloegr, yn ogystal â Gogledd-ddwyrain Lloegr a Gogledd-orllewin Lloegr.

1.12 Nid yw'r data hwn yn gwahaniaethu rhwng sut gallai'r boblogaeth amrywio rhwng ardaloedd trefol a gwledig, er y gall darlledwyr fod yn recriwtio ar draws rhanbarthau/ardaloedd eang, sy'n cynnwys ardaloedd trefol a gwledig. Wrth gwrs, mae llawer o amrywiadau i ddeall beth mae'r data'n ei ddangos am gynrychiolaeth, ond rydym yn annog darlledwyr i edrych ar eu gweithlu o'i gymharu â'r boblogaeth y maent yn denu gweithwyr ohoni.

**Ffigur 4: Data amrywiaeth yn ôl gwlad a rhanbarth, teledu a radio gyda'i gilydd, 2023/24**[14]

| | Menywod | Meincnod poblogaeth[15] | Grwpiau Ethnig Lleiafrifol | Meincnod poblogaeth[16] | Pobl anabl | Meincnod poblogaeth[17] | Dosbarth gweithiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Alban | 54% | 49% | 7% | 6% | 11% | 22% | 32% |
| Cymru | 49% | 48% | 6% | 5% | 10% | 21% | 28% |
| Gogledd Iwerddon | 44% | 48% | 2% | 4% | 9% | 15% | 32% |
| Gogledd-ddwyrain Lloegr | 47% | 49% | 7% | 6% | 12% | 21% | 33% |
| Gogledd-orllewin Lloegr | 49% | 48% | 13% | 13% | 12% | 21% | 30% |
| Swydd Efrog a Humber | 44% | 48% | 10% | 12% | 14% | 22% | 32% |
| Dwyrain Canolbarth Lloegr | 46% | 46% | 14% | 15% | 9% | 21% | 38% |
| Gorllewin Canolbarth | 51% | 47% | 25% | 21% | 12% | 19% | 34% |

[14] Nid ydym wedi cynnwys cyfartaleddau poblogaeth ar gyfer cefndir economaidd-gymdeithasol yn y tabl hwn, o ystyried nad oes meincnodau rhanbarthol ar gael. Yn absenoldeb meincnodau rhanbarthol ar gyfer cefndir economaidd-gymdeithasol, rydym yn defnyddio meincnodau rhanbarthol ar gyfer statws economaidd-gymdeithasol presennol fel procsi yn unig.
[15] Arolwg Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r Boblogaeth – NomisWeb, Pawb 16-64 oed sy'n gyflogedig, Ebrill 23 – Mawrth 24.
[16] Arolwg Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r Boblogaeth – NomisWeb, Pawb 16-64 oed sy'n gyflogedig, Ebrill 23 – Mawrth 24.
[17] Arolwg Blynyddol y Swyddfa Ystadegau Gwladol o'r Boblogaeth – NomisWeb, Poblogaeth economaidd weithgar, y DU. Poblogaeth economaidd weithgar graidd neu bobl ag anabledd sy'n cyfyngu ar waith, pawb, Ebrill 23 – Mawrth 24.

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Lloegr** | | | | | | | |
| **Dwyrain Lloegr** | 48% | 47% | 16% | 14% | 10% | 18% | 30% |
| **De-ddwyrain Lloegr** | 46% | 48% | 14% | 13% | 11% | 19% | 26% |
| **De-orllewin Lloegr** | 56% | 48% | 8% | 7% | 11% | 22% | 26% |
| **Llundain** | 50% | 46% | 26% | 39% | 10% | 16% | 23% |

## Penawdau o'r offeryn hunanasesu

1.13 Mae ein harolwg o'r gweithlu yn dweud wrthym pwy sy'n gweithio yn y diwydiant darlledu, ac mae ein hofferyn hunanasesu, sydd bellach yn ei ail flwyddyn, yn dweud wrthym sut mae darlledwyr yn datblygu eu dull gweithredu o ran TegACh. Mae dadansoddi canlyniadau'r ddau arolwg gyda'i gilydd yn rhoi gwybodaeth ychwanegol, gan dynnu sylw at ble mae cynnydd wedi bod a ble mae angen gwneud rhagor o ymdrech.

1.14 Mae'r offeryn hunanasesu yn dangos i ni sut mae darlledwyr yn perfformio yn erbyn pob un o'r saith 'elfen TegACh'[18] sy'n cael sylw yn yr arolwg ac mae'n rhoi sgôr cynnydd i ddarlledwyr ar gyfer pob elfen, sy'n amrywio o 'ddechrau' i 'gyflawni'. Mae hefyd yn helpu darlledwyr i ddeall sut gallant ddatblygu eu trefniadau TegACh ymhellach, gan ystyried yr argymhellion a nodir yn ein canllawiau i ddarlledwyr.

1.15 Mae ffigur 5 yn dangos sut roedd y darlledwyr 'mwy'[19] wedi sgorio yn erbyn pump o'r saith elfen TegACh[20] a sut mae hyn wedi newid ers canfyddiadau'r llynedd.[21] Fel y dangoswyd, dywedodd cyfran uwch o ddarlledwyr wrthym eu bod wedi gwneud y cynnydd mwyaf yn yr elfen 'diwylliant a llais', gyda chyfran y darlledwyr sy'n 'cyflawni' yma yn cynyddu o 65% i 73%. Mae'r rhain yn ganfyddiadau cadarnhaol, sy'n rhoi syniad defnyddiol o sut mae TegACh wedi'i wreiddio mewn sefydliad. Rydym yn ystyried rhagor o ganfyddiadau sy'n ymwneud â 'diwylliant a llais yn yr adran 'Diwylliant cynhwysol' isod.

1.16 Mae darlledwyr wedi gwneud cynnydd o ran 'Cadw, Datblygu a Gwneud Cynnydd', gyda 58% o ddarlledwyr bellach yn 'cyflawni'. Er bod hyn wedi codi o 45% y llynedd, mae mwy i ddarlledwyr ei wneud yma, ac rydym yn trafod hyn ym mharagraffau 3.17 i 3.21. Mae

---

[18] Dyma'r ardaloedd dan sylw: Strategaeth ac arweinyddiaeth; casglu, monitro a gwerthuso data; recriwtio; cadw; cynnydd a datblygiad; diwylliant a llais; comisiynu; gweithwyr llawrydd.


[19] Rydym wedi canolbwyntio ar y darlledwyr mwy (yr ydym wedi'u diffinio fel y rheini sydd â 100 neu fwy o weithwyr yn y DU, yn ogystal ag MG ALBA) sy'n fwy tebygol o fod â'r adnoddau i ddilyn yr arferion gorau ar draws ystod ehangach o feysydd. Mae effaith eu trefniadau TegACh ar y gweithlu darlledu hefyd yn debygol o fod yn fwy oherwydd nifer y bobl maent yn eu cyflogi. Mae MG ALBA wedi'i gynnwys yn y diffiniad hwn: er bod ganddo lai na 100 o weithwyr yn y DU, mae'n cyfrannu at wasanaeth cyhoeddus (BBC ALBA).

[20] Mae canfyddiadau'r ddwy elfen arall – gweithwyr llawrydd a chomisiynu – wedi'u nodi ym mharagraffau 3.15 i 3.16 a 3.12.

[21] Sylwch fod y gronfa o ddarlledwyr rydym yn eu harolygu yn newid bob blwyddyn, yn dibynnu ar bwy sydd â thrwydded darlledu. Ar ben hynny, mae gan rai darlledwyr 'mwy' lai na 100 o weithwyr yn y DU bellach ers 2023, felly nid ydynt wedi'u cynnwys yn ein dadansoddiad o'r offeryn hunanasesu ar gyfer 2024. Edrychwch ar ein hadroddiad methodoleg i gael rhagor o fanylion am nifer y darlledwyr a ymatebodd i bob arolwg.

gan ddarlledwyr hefyd fwy i'w wneud o hyd o ran 'Casglu, Monitro a Gwerthuso Data', fel rydym yn ei drafod ymhellach isod.[22]

**Ffigur 5: Offeryn hunanasesu: lefelau datblygu darlledwyr mwy yn ôl elfen TegACh**




*Mae'r data'n seiliedig ar y darlledwyr 'mwyaf' a ymatebodd i'r cwestiynau gorfodol a gwirfoddol ar gyfer y pum elfen hyn (34 o ddarlledwyr ar gyfer 2022/23, 26 o ddarlledwyr ar gyfer 2023/24). (Sylwch, ar gyfer ein harolwg yn 2023/24 roeddem wedi cynnwys opsiwn o 'ddim yn berthnasol i'n sefydliad' ar gyfer pob cwestiwn gwirfoddol, i adlewyrchu na fydd pob cwestiwn rydym yn ei ofyn yn berthnasol i bob darlledwr. Dewisodd dau ddarlledwr yr opsiwn hwn ar gyfer hyd at ddau gwestiwn – mae'r darlledwyr hyn yn dal i gael eu cynnwys yn y ffigur hwn gan nad oedd hyn yn gwneud gwahaniaeth sylweddol i lefelau datblygu'r darlledwyr hyn. Mae'r dull hwn yn gyson â'n dull gweithredu ar gyfer data'r llynedd, a oedd yn cynnwys un darlledwr a atebodd y rhan fwyaf o'r cwestiynau gwirfoddol, ond nid pob un).*

[22] Roedd darlledwyr â llai na 100 o weithwyr yn fwy tebygol o fod wedi 'dechrau' neu 'wedi ymrwymo' â phob elfen o'i gymharu â'r darlledwyr mwy, gan adlewyrchu eu bod yn llai tebygol o fod â'r adnoddau i ddilyn arferion gorau. Ar gyfer y darlledwyr hyn, rydym yn ystyried yr offeryn hunanasesu yn fecanwaith pwysig ar gyfer adborth ar drefniadau TegACh.[23] Y 'bwlch data' yw cyfran y gweithwyr nad oes gennym wybodaeth amdanynt ar nodwedd benodol. Gallai hyn fod oherwydd nad yw'r darlledwr wedi casglu'r data hwnnw, neu oherwydd bod y gweithiwr wedi dewis peidio â datgelu gwybodaeth neu wedi datgelu gwybodaeth i'w gyflogwr ond heb roi caniatâd i rannu'r wybodaeth ag Ofcom. Rydym yn cydnabod nad yw hyn o fewn rheolaeth y darlledwr yn llwyr, gan fod gan weithwyr hawl i beidio â datgelu eu data i gyflogwyr neu i beidio â chydsynio iddo gael ei rannu ag Ofcom. Edrychwch ar ein hadroddiad methodoleg i gael rhagor o wybodaeth am y bwlch data.

# Mae data yn dal yn bwysig

2.1 Mae ein rhaglen TegACh ym maes darlledu yn darparu cyfoeth o wybodaeth i'n helpu ni a'r diwydiant i ddeall i ba raddau mae'r gweithlu darlledu yn cynrychioli poblogaeth weithio ehangach y DU. Mae'n hanfodol bod darlledwyr yn cynnal, a lle bo angen, yn ymdrechu i wella ansawdd a swmp y data maent yn ei gasglu, os ydynt am elwa'n llawn ar y manteision i'w sefydliadau. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i barhau i ddarparu gwybodaeth ddefnyddiol am yr hyn a allai fod yn helpu neu'n llesteirio cynnydd darlledwyr, ac i greu darlun cliriach o sut mae'r sector yn esblygu.


## Mae darlledwyr yn parhau i wneud cynnydd o ran cau'r 'bwlch data'[23] ond mae'r ddarpariaeth data yn dal yn isel mewn rhai meysydd.

2.2 Rydym wedi gweld cyfraddau ymateb uchel parhaus i rai o'r cwestiynau newydd a/neu ddiwygiedig yn ein harolwg o'r gweithlu yn dilyn y newidiadau a wnaethom yn 2022. Rydym yn croesawu'n arbennig y lefelau trawiadol o ddata ar leoliad daearyddol gweithwyr, a ddarparwyd ar gyfer teledu a radio, gan gynnwys 94% o weithwyr, yn ogystal â 'bwlch data' bach iawn ar gyfer oedran a rhyw.

2.3 Ar gyfer rhai cwestiynau gwirfoddol, mae'r ddarpariaeth data yn dal yn is nag ar gyfer y meysydd gorfodol. Ar gyfer data ar alwedigaeth rhieni[24], a ddefnyddiwn fel y prif ddangosydd ar gyfer cefndir economaidd-gymdeithasol, dim ond data ar gyfer 50% o weithwyr yn y diwydiant yn gyffredinol sydd gennym ni, er bod hyn wedi cynyddu o 26% yn 2019. Wrth edrych ar y sectorau teledu a radio ar wahân, mae bwlch data o 45% yn y diwydiant teledu[25] ac, yn bryderus, 97% mewn radio[26] mewn perthynas â galwedigaeth rhieni.[27] Rydym yn ystyried pwysigrwydd penodol data economaidd-gymdeithasol a chynrychiolaeth yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn.

[23] Y 'bwlch data' yw cyfran y gweithwyr nad oes gennym wybodaeth amdanynt ar nodwedd benodol. Gallai hyn fod oherwydd nad yw'r darlledwr wedi casglu'r data hwnnw, neu oherwydd bod y gweithiwr wedi dewis peidio â datgelu gwybodaeth neu wedi datgelu gwybodaeth i'w gyflogwr ond heb roi caniatâd i rannu'r wybodaeth ag Ofcom. Rydym yn cydnabod nad yw hyn o fewn rheolaeth y darlledwyr yn llwyr, gan fod gan weithwyr hawl i beidio â datgelu eu data i gyflogwyr neu i beidio â chydsynio iddo gael ei rannu ag Ofcom. Edrychwch ar ein hadroddiad methodoleg i gael rhagor o wybodaeth am y bwlch data.
[24] Sy'n holi am alwedigaeth prif enillydd yr aelwyd pan oedd y gweithiwr yn 14 oed.
[25] Gan gynnwys cyfanswm ffigurau'r BBC. Wrth eithrio'r BBC o'r ffigurau teledu, mae'r 'bwlch data' yn uwch, sef 64%.
[26] Heb gynnwys y BBC
[27] Rydym hefyd yn gofyn yn ein hofferyn hunanasesu am ddull gweithredu darlledwyr o ran monitro'r nodweddion 'gwirfoddol'. Eleni, dywedodd 20% o'r darlledwyr mwy wrthym nad ydynt yn monitro'r rhain ar hyn o bryd (gweler Ffigur 5).

**Ffigur 6: Tueddiadau yn y 'bwlch data' (hynny ydy, cyfran y data na chafodd ei gasglu na'i ddatgelu i Ofcom) ar gyfer nodweddion dethol, pob darlledwr, arolwg o'r gweithlu 2024**




*Mae ffigurau teledu yn cynnwys cyfanswm Gwasanaeth Cyhoeddus y BBC, ac nid yw ffigurau radio yn cynnwys y BBC. Dangosir canrannau 'bwlch data' mewn glas tywyll.*

2.4 Cyn cyflwyno eu data, roeddem wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid nad oeddent y llynedd yn monitro'r holl nodweddion 'gorfodol' (rhyw, hil/ethnigrwydd ac anabledd). Er bod cymysgedd o ddarlledwyr yn cael eu cynrychioli, roedd llawer o'r rhain yn sefydliadau rhyngwladol gyda phresenoldeb yn y DU, lle gallai eu harferion casglu data fod yn seiliedig ar rwymedigaethau y tu allan i'r DU. Rydym wedi trafod y gofynion gyda'r darlledwyr hyn yn ogystal â rhoi cyngor ar wella arferion casglu data.

2.5 Fel y dangosir yn Ffigur 7 isod, dywedodd 13% o ddarlledwyr mwy wrthym nad ydynt yn monitro'r nodweddion 'gorfodol' ar hyn o bryd. Cafodd y 'bwlch data' eleni ei sbarduno gan gymysgedd o ddeiliaid trwyddedau newydd a allai fod yn llai datblygedig yn eu harferion TegACh, yn ogystal â rhai darlledwyr mwy sefydledig. Byddwn yn cysylltu â'r rhai sy'n parhau i beidio â chasglu a/neu beidio â rhoi'r wybodaeth ofynnol[28] i ni a byddwn yn ystyried a ddylid cymryd camau gorfodi.

## Rydym wedi clywed rhai enghreifftiau cadarnhaol o sut mae darlledwyr yn ceisio cynyddu eu darpariaeth data.


2.6 Mae ein hofferyn hunanasesu yn dangos bod y mwyafrif llethol (92%) o ddarlledwyr mwy yn defnyddio amrywiaeth o fentrau a chynlluniau cyfathrebu i wella pa mor gyflawn yw eu data ar amrywiaeth y gweithlu. (Gweler Ffigur 7). Mae'r gyfran a ddywedodd wrthym 'mae hyn yn llwyddiannus ac yn sicrhau canlyniadau' wedi cynyddu o 35% y llynedd i

[28] Gall hyn gynnwys dweud wrthym fod yn well gan weithwyr beidio â datgelu gwybodaeth – nid ydym yn mynnu bod gweithwyr yn rhannu'r wybodaeth hon â'u cyflogwr nac Ofcom.

50%, sy'n galonogol iawn. Yn yr ymatebion 'testun agored'[29] i'r offeryn ansoddol, dywedodd darlledwyr wrthym am amrywiaeth o fentrau i gynyddu'r ddarpariaeth o ddata. Er enghraifft, dywedodd UKTV wrthym sut mae ei ymgyrch ysgogi data "amrywiaeth a chynhwysiad", 'This is Me', wedi helpu i hysbysu ac addysgu cydweithwyr am bwysigrwydd rhannu eu data a'u straeon amrywiaeth a chynhwysiad, ac mae Sky yn defnyddio ei ymgyrch 'Count Me In' i annog y gweithlu i ddiweddaru ei ddata amrywiaeth. Dywedodd ITV fod ymgyrch yn 2023 wedi cynyddu cyfraddau cwblhau data amrywiaeth o 67% i 82%.

2.7 Rydym hefyd wedi clywed enghreifftiau eraill o ddarlledwyr yn cynyddu pa mor gyflawn a/neu gywir yw'r data maent yn ei gasglu. Er enghraifft, yn ei Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2023, mae Channel 4 yn dweud ei bod, yn dilyn ymgyrch gyfathrebu arloesol, wedi gweld cynnydd o 10% yng nghyfanswm y gynrychiolaeth anabledd, hynny yw, cynnydd o 90% yn nifer yr aelodau o staff sy'n rhannu bod ganddynt gyflwr niwroamrywiol, nam neu gyflwr hirdymor.

### Ffigur 7: Offeryn hunanasesu: ymatebion i gwestiynau dethol ar gasglu data




*Darlledwyr gyda 100 a mwy o weithwyr ynghyd ag MG ALBA. Atebodd 30 o ddarlledwyr ddatganiad 1 (a oedd wedi'i nodi â * i ddweud ei fod yn orfodol i ddarlledwyr ei ateb), ac atebodd 26 o ddarlledwyr ddatganiadau 2 a 3 (ac eithrio'r rhai a ymatebodd 'ddim yn berthnasol i'n sefydliad' a'r rhai nad oeddent yn fodlon darparu gwybodaeth).*

2.8 Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 7 uchod, mae 77% o'r darlledwyr mwy yn 'gwneud cynnydd' neu'n 'cyflawni' mewn perthynas â chasglu, monitro a gwerthuso data, sy'n golygu bod 23% yn 'dechrau' neu 'wedi ymrwymo' (hynny yw, mae'r darlledwyr hyn yn llai datblygedig yn y maes hwn). Yn gadarnhaol, mae mwy o ddarlledwyr nawr wedi datblygu ymhellach yn y maes hwn o'i gymharu â'r llynedd.[30]

[29] Er mwyn deall dull gweithredu darlledwyr o ran TegACh yn well, mae'r arolwg yn cynnwys blychau testun penagored sy'n ymwneud â phob 'elfen' TegACh er mwyn i ddarlledwyr ddarparu unrhyw sylwadau ychwanegol.
[30] Pan oedd 65% o'r darlledwyr mwy yn 'gwneud cynnydd' neu'n 'cyflawni'.

2.9 Wrth gwrs, mae'n golygu mwy na dim ond casglu'r data. Rhaid i ddarlledwyr ymrwymo i'w ddefnyddio a sicrhau bod uwch swyddogion yn ymrwymo i'w bwysigrwydd a'i werth. Rydym yn ystyried rhagor am rôl uwch reolwyr ar dudalennau 26-27.

# Y darlun ehangach: data yn ei gyd-destun

3.1 Credwn fod gweithlu amrywiol a chynrychioladol nid yn unig yn nod ynddo'i hun, ond yn elfen hanfodol o ddiwydiant iach a chynaliadwy. Yn yr adran hon, rydym yn nodi tri maes – cynnwys, cynaliadwyedd a diwylliant – lle rydym yn credu y gall ein data TegACh daflu goleuni ar faterion ehangach sy'n wynebu'r sector.

## Creu cynnwys y gellir ymddiried ynddo

### Mae dull gweithredu wedi'i wreiddio ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiad yn hanfodol; mae gweithlu amrywiol yn creu cynnwys mwy dilys.

3.2 Wrth galon ein dull gweithredu mae'r egwyddor bod gweithlu amrywiol yn arwain at well cynrychiolaeth a phortreadu ar y sgrin. Mae'r blynyddoedd diwethaf wedi pwysleisio pwysigrwydd creu rhaglenni dibynadwy, cywir a dilys sy'n siarad â chynulleidfaoedd amrywiol ledled y DU, yn enwedig mewn newyddion. Yn y cyd-destun hwn, mae pwy sy'n gweithio i'r darlledwyr sy'n gwneud ac yn comisiynu'r cynnwys hwn yn bwysig iawn, ac yn benodol pwy sydd mewn rolau gwneud penderfyniadau, newyddiadurol a golygyddol.

### Mae tangynrychiolaeth pobl anabl a phobl o gefndir dosbarth gweithiol yn dal yn broblem fawr.

3.3 Rydym yn gweld nad yw pobl anabl yn cael eu cynrychioli'n ddigonol yn barhaus ar lefel gyffredinol ac ar draws pob lefel a rôl, er bod rhywfaint o gynnydd yn cael ei wneud, diolch i ymdrechion cydgysylltiedig ar draws y diwydiant. Mae hyn yn cynnwys mentrau fel y Prosiect Mynediad Teledu, lle mae deg o ddarlledwyr a ffrydwyr mwyaf y DU[31] wedi addo gweithio gyda'i gilydd i sicrhau mynediad ar gyfer talentau anabl. Mae mentrau penodol eraill wedi bod ar gyfer darlledwyr hefyd – er enghraifft rhaglen Ymestyn Cyflogaeth y BBC, sy'n ceisio dod â phobl anabl i mewn i'r sefydliad drwy neilltuo rolau, a chynllun mentora anabledd RISE Channel Four.

3.4 Yng Ngŵyl Deledu Caeredin eleni, roedd Darlith MacTaggart wedi mynegi pryder am gynrychiolaeth dosbarth cymdeithasol a rhanbarthau ar y sgrin ac ar yr awyr[32]. Fel y nodwyd uchod, er bod y ddarpariaeth data gweithlu yn y maes hwn yn gwella, mae'n dal yn isel ac rydym yn annog y sector darlledu i wneud mwy i adnabod ei weithwyr yn hyn o beth. Mae ein data'n dangos gostyngiad bach ers y llynedd yng nghyfran y gweithwyr o gefndir dosbarth gweithiol, sef 27%, o'i gymharu â chyfartaledd y boblogaeth sy'n gweithio sef 39%.

3.5 Rydym yn cytuno bod tangynrychiolaeth gweithwyr o gefndir dosbarth gweithiol yn broblem sylweddol i'r diwydiant. Er gwaethaf ystod eang o fentrau wedi'u targedu at amrywiaeth o nodweddion heb gynrychiolaeth ddigonol, hyd yma mae llai o ffocws wedi

[31] Amazon Prime Video, BBC, Britbox, Channel 4, Disney, ITV, Paramount, Sky, STV ac UKTV.
[32] Roedd Adolygiad Cynulleidfaoedd y BBC Ofcom yn 2023 yn archwilio'r ffactorau sylfaenol a oedd yn ysgogi lefelau bodlonrwydd is ymysg cynulleidfaoedd yn yr hyn a elwir yn draddodiadol yn grwpiau economaidd-gymdeithasol D ac E (cyfeirir yn aml at bobl o grwpiau D ac E fel pobl sydd â statws economaidd-gymdeithasol 'is' neu sy'n dod o gefndiroedd dosbarth gweithiol).

bod ar ddeall a gwella cynrychiolaeth dosbarth gweithiol. Rydym yn cydnabod bod hon yn broblem benodol i'r gweithlu llawrydd helaeth, lle gallai fod yn anoddach i bobl o grwpiau economaidd-gymdeithasol is gael eu troed i mewn yn y diwydiant, ac aros yno pan fydd gwaith yn y dyfodol yn gallu bod yn ansicr. Rydym yn trafod yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn y gwaith y mae'r TV Foundation wedi'i ddechrau, gyda'r nod o gryfhau agwedd y diwydiant teledu at symudedd dosbarth a chymdeithasol.

3.6 O ystyried y lefelau isel presennol o ddarpariaeth data ar gefndir economaidd-gymdeithasol, ein blaenoriaeth yw annog mwy o ddarlledwyr i gasglu data allweddol ar nodweddion fel galwedigaeth rhieni a'r math o ysgol a fynychwyd. Ar hyn o bryd, nid ydym yn gofyn i ddarlledwyr gyflwyno data economaidd-gymdeithasol yn ôl lefel swydd na rôl, felly nid ydym yn gwybod eto, er enghraifft, a yw pobl dosbarth gweithiol yn cael eu tangynrychioli'n arbennig mewn swyddi uwch. Wrth i setiau data ddatblygu, byddwn yn parhau i adolygu a ddylid gofyn am ddadansoddiad manylach o ddata darlledwyr yn y maes hwn.

### Mae data am grefydd yn dangos bod Cristnogion a Mwslimiaid yn cael eu tangynrychioli yn y gweithlu.

3.7 Eleni, rydym wedi edrych yn fanylach ar gynrychiolaeth grefyddol yn y sector – mae hyn yn dangos bod pobl â chrefydd, yn gyffredinol, yn cael eu tangynrychioli yn y diwydiant (44% o'r gweithlu o'i gymharu â 60% o'r boblogaeth). Mae hyn yn cael ei sbarduno'n arbennig gan dangynrychiolaeth Cristnogion (30.9% o'i gymharu â 49% o'r boblogaeth) a Mwslimiaid (3.3% o'r gweithlu o'i gymharu â 6.9% o'r boblogaeth) er bod cyfran y Mwslimiaid wedi cynyddu o 2.6% o'r gweithlu y llynedd.

### Mae rhai grwpiau'n dal i gael eu tangynrychioli mewn rolau golygyddol uwch a rolau sy'n gwneud penderfyniadau.

3.8 Ar draws y diwydiant eleni, rydym wedi gweld rhai gwelliannau yn y gynrychiolaeth o fenywod a phobl o grŵp ethnig lleiafrifol, ond wrth edrych yn fanylach ar y data, gwelwn fod tangynrychiolaeth yn parhau ymysg uwch reolwyr ac mewn rhai rolau gwneud penderfyniadau golygyddol. Mae menywod yn llai tebygol o fod mewn rolau uwch reoli (43%) ac mewn rolau comisiynu/rhaglennu (46%). Mae'r canfyddiad hwn yn arbennig o ddifrifol i'r diwydiant radio (ac eithrio'r BBC) lle mai dim ond 33% o uwch reolwyr sy'n fenywod a 36% o'r rheini sy'n gweithio ym maes comisiynu a rhaglennu. Ar gyfer y diwydiant teledu, mae menywod sy'n gweithio i ddarlledwyr gwasanaeth cyhoeddus yn cael eu cynrychioli'n well yn y rolau hyn, ac yn cael eu tangynrychioli y tu allan i'r darlledwyr hyn.


3.9 Nid yw pobl o grŵp ethnig lleiafrifol yn cael eu cynrychioli mor dda ar draws y diwydiant yn gyffredinol mewn rolau uwch reoli (11%, gan gynnwys 2% Du[33] a 4% Asiaidd[34]), rolau creadigol a chynhyrchu (14%, gyda phobl Asiaidd yn cael eu tangynrychioli gyda 4% ond pobl Ddu yn cael eu cynrychioli'n well gyda 4%), ac mewn rolau ar yr awyr/ar sgrin (13%, gan gynnwys 3% Du a 5% Asiaidd).[35] Er bod pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn cael eu

[33] Meincnod poblogaeth 4%
[34] Meincnod poblogaeth 7%
[35] Nodwn fod cyfran sylweddol o bobl mewn rolau ar yr awyr/ar sgrin yn debygol o gael eu cyflogi fel gweithwyr llawrydd (yr ydym yn casglu data cyfyngedig arnynt, yn wirfoddol) neu drwy gwmnïau cynhyrchu annibynnol, nad ydynt yn cael eu cofnodi yn y data yma. "Diamond" sy'n casglu data ar y gweithlu teledu llawrydd ehangach, sef system ar-lein sy'n cael ei defnyddio gan y BBC, ITV, Channel 4, Paramount, Sky ac

cynrychioli'n well ar y cyfan fel grŵp ym maes newyddiaduraeth a newyddion (18%), mae pobl Ddu yn dal i gael eu tangynrychioli yn y rolau hyn (ar 3%).[36] Unwaith eto, mae'r grwpiau hyn yn llawer llai tebygol o weithio mewn rolau radio allweddol (pan fydd y BBC wedi'i eithrio) yn enwedig mewn rolau uwch reoli, comisiynu a rhaglennu, ac ar yr awyr/ar sgrin – ym mhob un o'r rolau hyn, mae'r gynrychiolaeth o bobl o grŵp ethnig lleiafrifol yn rhy fach i ni adrodd arni. Mae cynrychiolaeth mewn swyddi newyddion a newyddiaduraeth radio (ac eithrio'r BBC) yn 5% ar gyfer grwpiau ethnig lleiafrifol yn gyffredinol.

3.10 Mae pobl anabl yn cael eu tangynrychioli'n arbennig mewn rolau ar yr awyr/ar sgrin (5%)[37], rolau masnachol a chyfathrebu (8%) a rolau newyddiaduraeth a newyddion (9%).

**Ffigur 8: Canran y menywod, gweithwyr ethnig lleiafrifol a gweithwyr anabl yn ôl swydd, arolwg o'r gweithlu 2024**




3.11 Os nad yw pobl anabl, menywod a phobl o grwpiau ethnig lleiafrifol yn cael y rolau dylanwadol hyn (yn enwedig ym maes radio) ni fyddant yn cael cyfle i ddefnyddio eu profiadau a'u safbwyntiau i ddylanwadu ar y cynnwys sy'n cael ei greu.

3.12 Yn fwy cadarnhaol, mae pobl o grŵp ethnig lleiafrifol yn cael eu cynrychioli'n well mewn rolau comisiynu a rhaglennu teledu (21% boed yn cynnwys neu'n eithrio'r BBC). Mae'r

---


UKTV i gael data amrywiaeth cyson ar y rhaglenni maent yn eu comisiynu. Canfu adroddiad diweddaraf Diamond fod 23.5% o gyfraniadau ar y sgrin yn 2022/23 wedi cael eu gwneud gan bobl o grwpiau ethnig lleiafrifol, wedi'u sbarduno'n bennaf gan gynnydd mewn cyfraniadau gan bobl o gefndiroedd Du, Affricanaidd, Caribïaidd a Du Prydeinig.

[36] Mae cynrychiolaeth pobl Asiaidd wedi cynyddu o 5% i 7%, sydd bellach yn unol â meincnod y boblogaeth.

[37] Dangosodd adroddiad diweddaraf Diamond ar y gweithlu llawrydd gynnydd bach mewn cynrychiolaeth pobl anabl ar y sgrin i 8.7%.

darlledwyr mwy hynny sy'n ateb ein hofferyn hunanasesu mewn perthynas ag arferion comisiynu yn fwy tebygol na'r llynedd o gael polisi amrywiaeth ar gyfer comisiynu cynnwys, ac o gael polisi comisiynu amrywiaeth sydd wedi'i ddylunio i gynyddu TegACh mewn timau cynhyrchu.  Mae cyllid wedi'i neilltuo yn dal yn ddull gweithredu sy'n cael ei ddefnyddio gan gyfran lai o ddarlledwyr yn unig. Gweler Ffigur 9.

### Ffigur 9: Offeryn hunanasesu: ymatebion i gwestiynau am gomisiynu




*Darlledwyr gyda 100 a mwy o weithwyr ynghyd ag MG ALBA. Atebodd 18 o ddarlledwyr y datganiadau hyn (ac eithrio'r rheini a ymatebodd 'Ddim yn berthnasol/Dim cynnwys wedi'i gomisiynu' a'r rheini nad oeddent yn fodlon darparu gwybodaeth).*

## Diwydiant cynaliadwy

3.13 Mae creu cynnwys dibynadwy, sy'n gwasanaethu cynulleidfaoedd amrywiol ledled y DU, yn dibynnu ar sector cynhyrchu a diwydiant darlledu cynaliadwy. Ni all unrhyw ystyriaeth o'r cyfnod y mae ein data'n ei gwmpasu (2023/24) anwybyddu sylwadau am faterion sy'n bygwth twf a chreu swyddi, fel prinder sgiliau. Ein nod yw cefnogi darlledwyr i ddefnyddio eu data TegACh i gryfhau eu cynaliadwyedd yn y tymor hwy.


### Mae ein data yn ôl swydd yn rhoi cipolwg i ni ar bwy nad ydynt yn cael eu cyrraedd ar gyfer rolau penodol.

3.14 Fel rydym wedi'i nodi uchod, mae rhai grwpiau'n cael eu tangynrychioli mewn rolau golygyddol uwch a rolau sy'n gwneud penderfyniadau yng ngweithlu'r darlledwyr. Yn ogystal â'r effaith ar gynnwys a gynhyrchir, mae gan annhegwch sy'n benodol i rôl oblygiadau i sgiliau ar gyfer dyfodol y diwydiant.  Mae ffigur 8 uchod yn dangos mai dim ond 28% o'r rhai sy'n cael eu cyflogi mewn rolau technegol a pheirianneg ar draws darlledu eleni oedd yn fenywod, o'i gymharu â 61% mewn rolau gweithredol / gweinyddol, a 59% mewn rolau masnachol a chyfathrebu.

3.15 Mae'r boblogaeth lawrydd hefyd yn gweld tangynrychiolaeth yn ôl swydd. Canfu adroddiad diweddaraf Diamond fod menywod yn dal i gael eu tangynrychioli mewn rhai rolau technegol oddi ar y sgrin fel Camera (14.7% o gyfraniadau), Sain (13.3%) a Goleuo (8%). Mae pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol hefyd yn cael eu tangynrychioli fwyaf mewn rolau Sain (7.5%) a Goleuo (7.9%), gyda gostyngiad mewn cynrychiolaeth mewn perthynas â rolau Pennaeth Cynhyrchu (i 5.6%).

3.16 Mae ein hofferyn hunanasesu yn gofyn i ddarlledwyr roi sylwadau ar y gweithdrefnau sydd ganddynt ar waith i gefnogi TegACh mewn perthynas â'r gweithwyr llawrydd sy'n gwneud eu rhaglenni. Yn gadarnhaol, mae gan y rhan fwyaf o ddarlledwyr weithdrefn gwyno lle gall gweithwyr llawrydd riportio aflonyddu, bwlio, gwahaniaethu neu erledigaeth. Ond dim ond ychydig llai na hanner y darlledwyr mwy sydd â pholisïau neu gamau gweithredu uniongyrchol ar waith i hyrwyddo TegACh ymysg gweithwyr llawrydd (46%), er bod ychydig mwy yn dylanwadu ar TegACh ymysg gweithwyr llawrydd drwy'r gofynion TegACh maent yn eu rhoi ar bartneriaid cynhyrchu (56%).

### Ffigur 10: Offeryn hunanasesu: ymatebion i gwestiynau am weithwyr llawrydd





Darlledwyr gyda 100 a mwy o weithwyr ynghyd ag MG ALBA. Atebodd 24 o ddarlledwyr ddatganiadau 1 a 3, ac atebodd 23 o ddarlledwyr ddatganiad 2 (gyda'r tri datganiad yn eithrio'r rhai a atebodd '*Ddim yn berthnasol/Dim gweithwyr llawrydd' a 'Ddim yn berthnasol i'n sefydliad'* a'r rhai nad oeddent yn fodlon darparu gwybodaeth).

## Mae rhai grwpiau'n parhau i adael rolau darlledu ar gyfradd anghymesur

3.17 Yn ystod 2023/24 rydym wedi gweld mwy o bobl yn gadael gweithluoedd darlledwyr nag sydd wedi ymuno â nhw, ac mae rhai grwpiau'n cael eu cynrychioli'n anghymesur ymysg y rhai sy'n gadael.

3.18 Mae'n ymddangos yn debygol bod hyn yn un rheswm pam rydym wedi gweld cynnydd o ran cynrychiolaeth ar gyfer grwpiau penodol yn arafu dros y blynyddoedd diwethaf. Fel sy'n cael ei ddangos yn Ffigur 11, ar gyfer y rhai o grwpiau ethnig lleiafrifol a phobl anabl sy'n gweithio ym maes radio, ac ar gyfer y rhai o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is sy'n gweithio ar draws darlledu, mae'r gynrychiolaeth wedi aros ar lefelau tebyg dros y ddwy i dair blynedd diwethaf.

**Ffigur 11: Cynrychiolaeth gyffredinol o nodweddion dethol, arolwg o'r gweithlu 2018 i 2024**




*Mae'r ffigurau teledu yn y siart hwn yn cynnwys cyfanswm gwasanaethau cyhoeddus y BBC; nid yw'r ffigurau radio yn cynnwys y BBC; mae'r ffigurau ar gyfer cynrychiolaeth dosbarth gweithiol ar gyfer y diwydiant yn ei gyfanrwydd (hynny yw, teledu a radio).*


3.19 Mae'r tangynrychiolaeth barhaus hon er gwaethaf cynnydd cyffredinol yng nghyfran y bobl anabl a'r rheini o grwpiau ethnig lleiafrifol sy'n ymuno â darlledwyr yn ystod y blynyddoedd diwethaf (er enghraifft, dim ond 4% o bobl a oedd yn ymuno â darlledwyr radio[38] oedd yn anabl yn 2019 – mae'r ffigur hwn nawr yn 8%). Rydym yn gwybod bod darlledwyr wedi gwneud ymdrechion bwriadol i wella TegACh mewn arferion recriwtio. Yn ein hofferyn hunanasesu, dywedodd 93% o'r darlledwyr mwy wrthym eu bod yn hyrwyddo eu dull gweithredu o ran TegACh wrth recriwtio[39], a dywedodd 92% eu bod yn adolygu eu proses recriwtio yn rheolaidd i sicrhau ei bod yn deg ac yn gynhwysol, gan ddefnyddio'r arferion gorau presennol.[40]

3.20 Y llynedd, fe wnaethom dynnu sylw at y ffaith bod cyfraddau cadw staff yn dal yn is na'r cyfartaledd ymysg rhai grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli, ac mae hyn yn dal yn wir. Mae ein data'n awgrymu bod mwy o newid wedi bod ymysg menywod a'r rheini o grwpiau ethnig lleiafrifol sy'n gweithio ym maes darlledu – er enghraifft roedd gweithwyr o grŵp ethnig lleiafrifol, a oedd yn cynrychioli 18% o'r gweithlu darlledu cyffredinol, yn cyfrif am gyfran uwch o'r rhai a oedd yn ymuno â darlledwyr ar 26%, ond hefyd cyfran uwch o'r rhai a oedd yn gadael (23%).

---

[38] Ac eithrio'r BBC.
[39] Darlledwyr gyda 100 a mwy o weithwyr ynghyd ag MG ALBA. Cwestiwn gorfodol, a atebwyd gan 30 o ddarlledwyr.
[40] Darlledwyr gyda 100 a mwy o weithwyr ynghyd ag MG ALBA. Atebwyd gan 26 o ddarlledwyr (ac eithrio'r rhai nad oeddent yn fodlon darparu gwybodaeth).

**Ffigur 12: Cyfran y rhai sy’n ymuno ac yn gadael yn ôl nodweddion penodol, arolwg o’r gweithlu 2024**




3.21 I ymateb i’n hofferyn hunanasesu, dywedodd 46% o’r darlledwyr mwy wrthym eu bod yn gosod targedau sy’n ymwneud â chadw a/neu wneud cynnydd. Rydym yn cydnabod nad dyma’r unig ffordd o wneud cynnydd, ond gall targedau fod yn ffordd ddefnyddiol o osod uchelgeisiau a monitro cynnydd.

## Diwylliant cynhwysol – cefnogi’r syniad o weithlu amrywiol a chynhwysol

3.22 Mae ein data uchod yn awgrymu meysydd ffocws i ddarlledwyr yn eu hymdrechion i gadw gweithlu medrus sy’n addas ar gyfer heriau cyfryngau sy’n newid. Yn yr adran hon rydym yn edrych ar rai o’r ffyrdd y mae diwylliant sefydliadau darlledu eisoes yn newid, neu y gallent newid, i gefnogi’r ymdrechion hyn.

### Gall gwell diwylliant sefydliadol helpu i roi stop ar y ‘drws troi’

3.23 Mae’n ymddangos bod ymdrechion cynyddol i feithrin diwylliant cynhwysol ymysg darlledwyr. Fel sy’n cael ei ddangos yn Ffigur 5 (tudalen 13), i ymateb i’n model hunanasesu, y maes mwyaf datblygedig ar gyfer darlledwyr eleni oedd ‘diwylliant a llais’, gyda 73% yn y categori uchaf o ‘gyflawni’ ar ôl ateb cwestiynau ar feysydd fel rhwydweithiau gweithwyr, hyfforddiant, a pholisïau a phrosesau bwlio ac aflonyddu. Mae hyn yn cymharu â 65% y llynedd ac er enghraifft roedd 50% yn ‘cyflawni’ mewn perthynas ag arferion recriwtio.

3.24 Mae hyn yn cyd-fynd â’n hargraffiadau anecdotaidd gan ddarlledwyr sy’n canolbwyntio ar y math o amgylchedd gwaith maent yn ei gynnig i weithwyr, wrth iddynt fynd i’r afael â sector sy’n datblygu a newid ehangach yn nisgwyliadau gweithwyr. Mae hyn yn amrywio o bolisïau gweithio hyblyg (er enghraifft, gweithio hybrid, seibiant gyrfa) i bolisïau llesiant.


3.25 Dywedodd darlledwyr wrthym am amrywiaeth o fentrau ac arferion maent yn eu dilyn i feithrin diwylliant cynhwysol. Er enghraifft, dywedodd ITV eu bod yn cynnal grwpiau ffocws a chylchoedd gwrando yn rheolaidd, a thynnodd STV sylw at ei arolygon barn gweithwyr a’i gyfweliadau gadael yn ogystal â chydweithwyr llawrydd yn llenwi holiaduron profiad.

3.26 Mae darlun mwy addawol hefyd yn dod i'r amlwg o ran dyrchafiadau/gwneud cynnydd yn y diwydiant. Er enghraifft, mae'n ymddangos bod lefel uwch na'r cyfartaledd o fenywod a gafodd ddyrchafiad y llynedd wedi cyfrannu at gynnydd bach yn nifer y menywod mewn rolau uwch reoli eleni.[41]

3.27 Dywedodd mwyafrif helaeth (87%) o'r darlledwyr mwy wrthym eu bod yn sicrhau bod gweithwyr o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn cael cyfle cyfartal i fanteisio ar gyfleoedd dysgu a datblygu.[42] Fodd bynnag, rydym yn credu y gallai darlledwyr fod yn gwneud mwy o ran cynlluniau datblygu gyrfa penodol ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli (mae 73% o'r darlledwyr mwy yn dweud eu bod yn gwneud hyn), yn ogystal â chael trefniadau ar waith i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth grwpiau penodol mewn perthynas â chynllunio olyniaeth, lle mai dim ond 57% o'r darlledwyr mwy sy'n dweud wrthym eu bod yn gwneud hyn. Gweler Ffigur 13.

3.28 Yn yr ymatebion testun agored, dywedodd rhai darlledwyr wrthym am gynlluniau wedi'u targedu ar gyfer grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli. Er enghraifft, 'Purple Development Programme' Channel 4 ar gyfer gweithwyr sydd â chyflwr niwroamrywiol, nam neu gyflwr tymor hir)[43] a mentrau wedi'u targedu gan Global Media fel Women in Broadcasting, Women in Tech a Senior Women, sydd wedi'u dylunio i gefnogi menywod gyda'u cyfle gyrfa nesaf.

### Ffigur 13: Offeryn hunanasesu: ymatebion i gwestiynau dethol ar gadw, datblygu a gwneud cynnydd




Darlledwyr gyda 100 a mwy o weithwyr ynghyd ag MG ALBA. Atebodd 26 o ddarlledwyr ddatganiadau 1 a 4 (ac eithrio'r rhai a atebodd *'ddim yn berthnasol i'n sefydliad' a'r rhai nad oeddent yn fodlon darparu*

---

[41] Yn 2023/23, roedd 52% o'r rheini a gafodd ddyrchafiad yn fenywod; rhwng 2022/23 a 2023/24 roedd cyfran y menywod mewn uwch swyddi rheoli wedi cynyddu o 42% i 43%.

[42] Nodwn felly bod 13% o'r darlledwyr mwy yn dweud nad ydynt, ar hyn o bryd, yn sicrhau bod gweithwyr o grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli yn cael mynediad cyfartal at gyfleoedd dysgu a datblygu. Gan fod hyn yn un o ofynion trwyddedeion darlledu ac wedi'i nodi yn ein canllawiau, byddwn yn ystyried y camau nesaf mewn perthynas â sicrhau bod darlledwyr yn cydymffurfio â'r amod hwn.

[43] Yn ogystal â'i gynllun 'Talent Accelerator' ar gyfer staff sy'n amrywiol o ran ethnigrwydd a rhaglen 'Unlimited' ar gyfer menywod.

*gwybodaeth)*. Atebodd 30 o ddarlledwyr ddatganiadau 2 a 3 (wedi'i nodi â * i ddweud bod yn rhaid i ddarlledwyr eu hateb).

## Mae ymrwymiad uwch swyddogion yn hanfodol i ddefnyddio data TegACh er budd gwirioneddol

3.29 Mae gwreiddio amrywiaeth a chynhwysiad go iawn mewn sefydliad yn golygu llawer mwy na dim ond casglu data; mae cynnydd yn annhebygol heb ymwybyddiaeth o fwriad, atebolrwydd a gweithredu ar sail tystiolaeth. Mae angen i ddarlledwyr weithredu o ganlyniad i gasglu a dadansoddi data, ei ddefnyddio i siapio polisïau a diwylliant ac i asesu effeithiolrwydd unrhyw gamau a gymerir. Er bod ein hadroddiad eleni yn rhoi darlun ar lefel diwydiant, nid yw hyn yn disodli darlledwyr unigol sy'n defnyddio eu data manylach eu hunain i lywio eu dull gweithredu.

3.30 Mae ein harolwg ansoddol yn rhoi cipolwg ar sut mae darlledwyr yn defnyddio'r data TegACh gwerthfawr maent yn ei gasglu, ac i ba raddau mae uwch arweinwyr yn cefnogi'r ymdrechion hyn. Er enghraifft, er bod y rhan fwyaf (81%) o ddarlledwyr mwy wedi dweud wrthym fod monitro a gwerthuso TegACh yn bwydo i mewn i newidiadau mewn trefniadau TegACh,[44] a 73% yn dweud bod eu huwch arweinwyr yn adolygu data 'byw', data a gasglwyd yn ddiweddar a thueddiadau'r gweithlu yn rheolaidd ac yn cymryd camau amlwg i hybu TegACh, maent yn llai tebygol (63%) o nodi lle mae tangynrychiolaeth yn eu huwch dîm o'i gymharu â meincnod perthnasol. Gweler Ffigur 14.

3.31 Yn erbyn yr elfen 'strategaeth ac arweinyddiaeth', gwelsom fod 27% o'r darlledwyr mwy yn 'dechrau neu wedi ymrwymo' (hynny yw, bod y darlledwyr hyn yn llai datblygedig yn y maes hwn), ychydig yn is na'r 32% y llynedd (gweler ffigur 5). Mae ein data hefyd yn dangos bod darlledwyr y mae eu hagwedd at strategaeth ac arweinyddiaeth ym maes TegACh yn fwy datblygedig yn tueddu i fod â gweithluoedd mwy cynrychioliadol na'r rheini nad ydynt mor ddatblygedig yn y maes hwn, sydd hefyd â llawer iawn mwy o ddata TegACh 'anhysbys'.[45]

3.32 Rhoddodd darlledwyr enghreifftiau i ni o'u hagwedd at TegACh mewn strategaeth ac arweinyddiaeth. Er enghraifft, dywedodd Sky wrthym fod gan bob uwch arweinydd fynediad at ddata eu gweithlu drwy ddangosfyrddau rhyngweithiol, a sut mae monitro wedi eu galluogi i ganolbwyntio ar faterion lle maent yn gweld y tangynrychiolaeth fwyaf, neu'r gwahaniaeth mwyaf ym mhrofiad gweithwyr o ganlyniad i ddemograffeg. Dywedodd Channel 4 wrthym am ei rolau newydd, sef Llysgenhadon Tegwch, sy'n eiriol dros ac yn arwain y gwaith o weithredu strategaeth tegwch newydd Channel 4 yn lleol, yn ogystal â sut mae ei swyddogion gweithredol yn adolygu data amrywiaeth dienw ar lefel y sefydliad ac ar gyfer eu hadrannau.

3.33 Rydym bob amser wedi bod yn glir bod yn rhaid i bawb ar draws y sefydliad cyfan gefnogi TegACh, ond mae cyfleoedd sylweddol o hyd i uwch arweinwyr wneud mwy i sbarduno newid. Mae ein set ddata yn dangos datgysylltiad parhaus rhwng y polisïau hyn a chyfraniad gweithredol uwch swyddogion. Gallai hyn ei gwneud hi'n anoddach gwreiddio


---

[44] Darlledwyr gyda 100 a mwy o weithwyr ynghyd ag MG ALBA. Atebwyd gan 26 o ddarlledwyr (ac eithrio'r rhai nad oeddent yn fodlon darparu gwybodaeth).

[45] Er enghraifft, mae menywod mewn rolau uwch reoli a phobl o gefndiroedd ethnig lleiafrifol a phobl anabl ar lefel pob gweithiwr yn cael eu cynrychioli'n well ymysg darlledwyr sy'n 'gwneud cynnydd' neu'n 'cyflawni' na'r rheini sy'n 'dechrau' neu 'wedi ymrwymo'.

TegACh mewn gwirionedd ymysg darlledwyr, a gallai diffyg arweinyddiaeth ar lefelau uwch waethygu hyn ymhellach.

### Ffigur 14: Offeryn hunanasesu: ymatebion i gwestiynau dethol am uwch reolwyr




*Darlledwyr gyda 100 a mwy o weithwyr ynghyd ag MG ALBA. Atebodd 26 o ddarlledwyr ddatganiadau 1, 2 a 4, ac atebodd 25 o ddarlledwyr ddatganiad 5 (gyda'r datganiadau hyn yn eithrio'r rhai a atebodd 'ddim yn berthnasol i'n sefydliad' a'r rhai nad oeddent yn fodlon darparu gwybodaeth). Atebodd 30 o ddarlledwyr ddatganiad 3 (wedi'i nodi â * i ddweud bod yn rhaid i ddarlledwyr ei ateb).*

# Y camau nesaf: ymdrech ar draws y diwydiant ynghyd ag atebolrwydd unigolion

4.1 Yn wyneb rhai meysydd parhaus o dangynrychiolaeth, mae'r adroddiad hwn yn pwysleisio'r angen i ddarlledwyr barhau i weld TegACh fel rhywbeth sy'n hanfodol i fusnes, gan gynnig cipolwg ar bryderon ehangach ar draws y diwydiant. Mae'n galonogol gweld nifer o ddiweddariadau/mentrau yn y diwydiant yn ddiweddar, sy'n cydnabod yn glir pŵer gweithredu ar y cyd yn hyn o beth, gan gynnwys:

- Mae Project Diamond y Rhwydwaith Amrywiaeth Creadigol (CDN) yn casglu ac yn dadansoddi data am amrywiaeth y gweithlu teledu llawrydd ehangach ar gyfer chwech o'r darlledwyr teledu mwyaf, ac mae wedi cyhoeddi ei fod yn gwella Diamond er mwyn cynyddu faint o fanylion a gesglir, gan gynnwys ychwanegu cwestiynau newydd am ethnigrwydd, cysylltiad crefyddol a chefndir economaidd-gymdeithasol at yr holiadur presennol. Bydd hwn yn gam sylweddol ymlaen o ran deall ymhellach sut mae ystod ehangach o grwpiau'n cael eu cynrychioli yn y diwydiant teledu.
- Mae'r TV Foundation, sef cangen elusennol o Ŵyl Deledu Caeredin, wedi ffurfio menter newydd, a elwir yn Impact Unit, a fydd yn ceisio cryfhau agwedd y diwydiant teledu tuag at symudedd dosbarth a chymdeithasol. Mae gweithgor newydd gyda chynrychiolwyr o bob rhan o'r diwydiant teledu bellach wedi cael ei ffurfio er mwyn bwrw ymlaen â gwaith y TV Foundation i helpu pobl o bob cefndir i gael mynediad at y diwydiant teledu a datblygu eu gyrfaoedd ymhellach ynddo; a chefnogi cynnwys teledu sy'n cael ei arwain gan ddiben.
- Strategaeth pum mlynedd ScreenSkills sy'n cynnwys ystyriaeth benodol i wella mynediad i grwpiau sy'n cael eu tangynrychioli.

4.2 Bydd Ofcom yn parhau i gefnogi ymdrechion ar draws y diwydiant ac i ymgysylltu â rhanddeiliaid o'r sector ehangach, gan gynnwys asiantaethau sgiliau, cynrychiolwyr llawrydd a gwasanaethau ffrydio. Rydym wedi ymrwymo o hyd i ddull cydweithredol lle gellir rhannu arferion effeithiol ar draws y diwydiant er budd pawb.

4.3 Fodd bynnag, rydym hefyd yn cydnabod bod cynnydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarlledwyr unigol fod yn atebol am newid yn eu sefydliadau eu hunain. Yn adroddiad y flwyddyn nesaf – a fydd yn nodi tair blynedd ers i ni ailwampio ein proses casglu data – byddwn yn cynnwys diweddariad cynnydd mewn perthynas â phob un o'r darlledwyr mwy yn unigol.

4.4 Mae sector darlledu'r DU yn parhau i wynebu newid enfawr, gyda heriau amlwg, gan gynnwys cystadleuwyr newydd a disgwyliadau cynulleidfaoedd yn newid. Er mwyn wynebu'r heriau hyn, credwn ei bod yn bwysicach nag erioed bod y sector bywiog a deinamig hwn yn adeiladu ar ei waith i ddatblygu diwydiant gwirioneddol amrywiol sy'n adlewyrchu ac yn gwasanaethu'r DU gyfan.

# A1. Tablau data

A1.1 Mae'r tablau data hyn yn gwneud cymariaethau o un flwyddyn i'r llall lle bo hynny'n bosibl ar gyfer y diwydiannau teledu a radio yn gyffredinol, a'r darlledwyr teledu a radio mwyaf (ar sail cyfran o'r gynulleidfa), yn ogystal ag S4C ac STV.[46] I gael rhagor o fanylion am ba ddata sy'n debyg i'r blynyddoedd blaenorol, edrychwch ar Ffigur 3 yn ein hadroddiad methodoleg. Mae'r adroddiad methodoleg hefyd yn rhoi manylion y meincnodau a ddarperir yn y tablau data hyn.

A1.2 Fel y nodir uchod, eleni darparodd y BBC un ymateb i ymdrin â chyfanswm ei weithlu gwasanaeth cyhoeddus ar y sail nad yw'r gweithlu, yn ymarferol, yn rhannu'n daclus yn rhai sy'n gweithio ar deledu neu radio yn unig. O ystyried bod ffigurau gweithlu'r BBC ar gyfer teledu yn y flwyddyn flaenorol yn sylweddol uwch na radio, rydym wedi cynnwys yn ein canfyddiadau, ac yn y tablau isod, ffigurau'r BBC yn yr ymatebion i'r arolwg o'r gweithlu teledu ac wedi'u heithrio o'r ymatebion i'r arolwg o'r gweithlu radio. Mae'r holl ffigurau ar gyfer 2022/23 wedi cael eu hailgyfrifo i adlewyrchu'r ailddyrannu hwn, ac ni fydd y data tueddiadau a nodir isod yn cyfateb i'r data a gyhoeddwyd yn adroddiad TegACh y llynedd.

A1.3 Defnyddir y term 'data anhysbys' yn y tablau data hyn i gyfeirio at y data cyfunol sy'n dod o dan y categorïau 'heb ei ddatgelu', 'dim cydsyniad' a 'heb ei gasglu'. Mae hyn yn dynodi data nad ydym ni (na'r darlledwr yn achos data sydd heb ei ddatgelu) yn gallu pennu'r effaith y mae'n ei chael ar broffil y nodwedd honno. Y gweddill – 'data gweladwy' – sy'n ein helpu i greu darlun cywir o'r diwydiant. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod nad yw gwelededd data o fewn rheolaeth y darlledwyr yn llwyr, gan fod gan weithwyr hawl i beidio â datgelu eu data i gyflogwyr neu i beidio â chydsynio iddo gael ei rannu ag Ofcom. Mae'r holl gyfrannau a ddangosir yn y tablau hyn yn seiliedig ar ddata gweladwy, ac eithrio 'data anhysbys'.

A1.4 Rydym yn defnyddio *** i ddynodi lle nad oes digon o ddata, gan gynnwys lle nad oes data ar gael neu lle mae canrannau sy'n ymwneud ag un darlledwr yn cyfateb i lai na deg o weithwyr, neu lle byddai modd adnabod unigolion fel arall.

A1.5 Sylwch fod y canrannau a ddangosir ar gyfer pob nodwedd yn cael eu cyfrifo ar sail wahanol i'r canrannau 'data anhysbys' a ddangosir. Mae'r canrannau 'data anhysbys' yn cael eu cyfrifo allan o gyfanswm nifer y gweithwyr, naill ai yn y diwydiant teledu neu radio yn gyffredinol, neu ym mhob darlledwr

[46] Ar gyfer teledu, mae hyn yn cynnwys teledu'r BBC, ITV, Channel 4, Paramount a Sky (ffynhonnell: Crynodeb Gwylio Misol BARB). Ar gyfer radio, mae hyn yn cynnwys radio'r BBC, Global a Bauer (ffynhonnell: Gwrando Chwarterol RAJAR). Rydym yn adrodd ar wasanaethau cyhoeddus y BBC yn gyffredinol, gan adlewyrchu sut mae wedi cyflwyno'r data i ni eleni. Cyfeiriwn at y grŵp hwn fel y 'prif 7'.

unigol. Mae'r canrannau ar gyfer pob nodwedd (er enghraifft, menywod, menywod sy'n uwch-reolwyr) yn seiliedig ar gyfanswm y 'data gweladwy' yn y categori hwnnw. Felly, ni fydd y canrannau ar gyfer y nodweddion a'r 'data anhysbys' yn dod i gyfanswm o 100%.

## Ffigur 15: Y diwydiant teledu (gan gynnwys cyfanswm gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU), 2023/24

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth oedran gweithio y DU | Pob gweithiwr teledu yn y DU | Newid pwynt canran ers 2023[47] | Gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU[48] [49] | Channel 4 | ITV | Paramount | Sky |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhyw** | | | | | | | | |
| Menywod | 48% | 50% | +1pc | 48% | 58% | 54% | 51% | 46% |
| Menywod sy'n uwch reolwyr | - | 44% | +2pc | 51% | 53% | 49% | 45% | 43% |

[47] Sylwch fod ffigurau 2023 wedi cael eu hailgyfrifo i gynnwys cyfanswm gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU er mwyn bod yn gyson â sut mae'r BBC wedi darparu ei ddata eleni.

[48] Sylwch: Mae ffigurau'r BBC yn yr adroddiad hwn yn wahanol i'r rhai a gyhoeddwyd yn Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb y BBC 2023/24. Mae hyn oherwydd nifer o ffactorau, gan gynnwys bod yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb yn cynnwys nifer fach o staff sydd â chontractau yn y DU sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r DU, tra bod data gweithlu TegACh yn cynnwys staff yn y DU yn unig. Mae'r Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb yn cynnwys holl staff y World Service, tra bod data am weithlu TegACh ond yn cynnwys staff y World Service sy'n gweithio ar gynnwys Saesneg a ddarperir ar wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU. Mae hefyd yn defnyddio diffiniad o 'staff arwain' sy'n wahanol i'r diffiniad o 'uwch reolwyr' a ddefnyddir mewn adroddiadau TegACh. Mae'r gwaith adrodd ar gyfer yr Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb yn seiliedig ar 'ddata cyfanswm y gweithlu' yn wahanol i'r dull o ddefnyddio 'data gweladwy'r gweithlu' a ddefnyddir yn yr adroddiad hwn (fel y nodir ar dudalen 8). Mae ffigurau'r BBC sy'n seiliedig ar ddata gweladwy a data cyfanswm ar gael yn ein hofferyn rhyngweithiol cysylltiedig.

[49] Sylwch ein bod yn defnyddio gwasanaeth cyhoeddus y BBC yn y DU fel llaw fer, ond mae'r ffigurau hyn hefyd yn cynnwys staff BBC World Service sy'n gweithio ar gynnwys Saesneg sy'n cael ei ddarparu ar wasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU. Gan fod y BBC wedi darparu un ymateb i gwmpasu ei holl weithlu gwasanaeth cyhoeddus, mae ei ymateb eleni yn cynnwys mwy o weithwyr World Service, sy'n fwy tebygol o fod yn perthyn i grŵp ethnig lleiafrifol. Efallai fod y newid hwn wedi cyfrannu at gynnydd yng nghyfran gweithwyr y BBC (ar lefel pob gweithiwr ac uwch reolwr) o grŵp ethnig lleiafrifol (o 15% i 18% ymysg yr holl weithwyr ac o 7% i 12% ymysg uwch reolwyr). Mae hyn yn wahanol i ddata Adroddiad Gwybodaeth am Gydraddoldeb y BBC.

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth oedran gweithio y DU | Pob gweithiwr teledu yn y DU | Newid pwynt canran ers 2023[47] | Gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU[48] [49] | Channel 4 | ITV | Paramount | Sky |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Rhyngryw | - | <1% | - | 0% | 1% | 0% | 1% | 0% |
| Data anhysbys | - | 1% | -1pc | 0% | 1% | 2% | <1% | 0% |
| **Hunaniaeth rhywedd** | | | | | | | | |
| Hunaniaeth rhywedd sy'n wahanol i'r rhyw a gofrestrwyd adeg geni | 1% | 2% | +1pc | 2% | *** | 1% | *** | *** |
| Data anhysbys | - | 41% | -10pc | 17% | 27% | 24% | 28% | 100% |
| **Ethnigrwydd** | | | | | | | | |
| Grŵp Ethnig Lleiafrifol | 16% | 19% | +1pc | 18% | 22% | 16% | 23% | 22% |
| Pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol sy'n uwch-reolwyr | - | 12% | -1pc | 12% | 21% | 14% | 14% | 8% |
| Data anhysbys | - | 13% | -2pc | 4% | 5% | 10% | 4% | 12% |
| **Anabledd** | | | | | | | | |
| Gweithwyr anabl | 18% | 11% | +1pc | 10% | 23% | 13% | 13% | 9% |
| Pobl anabl sy'n uwch reolwyr | - | 9% | +1pc | 12% | *** | 8% | *** | 5% |
| Data anhysbys | - | 21% | -4pc | 7% | 9% | 19% | 16% | 27% |
| **Oedran** | | | | | | | | |
| Dan 50 oed | 67% | 75% | -3pc | 67% | 84% | 79% | 83% | 84% |

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth oedran gweithio y DU | Pob gweithiwr teledu yn y DU | Newid pwynt canran ers 2023[47] | Gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU[48 49] | Channel 4 | ITV | Paramount | Sky |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 50 oed a hŷn | 33% | 25% | +3pc | 33% | 16% | 21% | 17% | 16% |
| Data anhysbys | - | 5% | -5pc | 0% | 0% | 0% | 0% | <1% |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | | | | | | | | |
| LHD+ | 3% | 11% | +1pc | 12% | 14% | 10% | 10% | 7% |
| Data anhysbys | - | 26% | -5pc | 16% | 10% | 15% | 10% | 24% |
| **Crefydd** | | | | | | | | |
| Crefyddol | 60% | 43% | -1pc | 43% | 47% | 45% | 43% | 47% |
| Dim crefydd | 40% | 57% | +1pc | 57% | 53% | 55% | 57% | 53% |
| Data anhysbys | - | 26% | -9pc | 10% | 11% | 30% | 15% | 28% |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol – Galwedigaeth rhieni** | | | | | | | | |
| Cefndir dosbarth gweithiol | 39% | 27% | -1pc | 27% | 32% | 29% | 27% | 39% |
| Data anhysbys | - | 45% | -11pc | 21% | 16% | 38% | 39% | 93% |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol – Addysg** | | | | | | | | |
| Ysgol nad yw'n annibynnol* | 93% | 87% | - | 87% | 86% | 88% | 88% | 87% |
| Data anhysbys | - | 42% | -10pc | 18% | 18% | 27% | 30% | 93% |

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth oedran gweithio y DU | Pob gweithiwr teledu yn y DU | Newid pwynt canran ers 2023[47] | Gwasanaethau cyhoeddus y BBC yn y DU[48] [49] | Channel 4 | ITV | Paramount | Sky |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfrifoldebau gofalu** | | | | | | | | |
| **Cyfrifoldebau gofalu** | 8% | 11% | ** | *** | *** | 10% | *** | *** |
| Data anhysbys | - | 88% | -3pc | 100% | 100% | 17% | 100% | 100% |

**Sylwch fod y ffigurau ar gyfer ysgolion nad ydynt yn annibynnol yn cynnwys y rhai a fynychodd ysgol sy'n cael ei rhedeg neu ei hariannu gan y wladwriaeth; y rhai a fynychodd ysgol y tu allan i'r DU a'r rhai a atebodd 'arall, fel addysg gartref'. ** Sylwch nad ydym wedi adrodd ar y newid pwynt canran ar gyfer cyfrifoldebau gofalu ers 2023. Roedd ffigur y llynedd yn llawer uwch (38% ar gyfer y diwydiant yn gyffredinol o'i gymharu â chyfartaledd y boblogaeth o 8%). Roedd y ffigur uwch hwn yn debygol fod yn cael ei yrru gan rai darlledwyr sy'n defnyddio diffiniad ehangach o gyfrifoldebau gofalu, gan gynnwys gweithwyr sy'n darparu gofal plant o ddydd i ddydd. Yn ein harolwg ar gyfer 2024, fe wnaethom bwysleisio na ddylai cyfrifoldebau gynnwys gofal plant er mwyn i ni allu deall yn well sut mae cynrychiolaeth pobl sydd â chyfrifoldebau gofalu sy'n gweithio ym maes darlledu yn cymharu â chyfartaledd poblogaeth ehangach y DU, sy'n golygu nad oes modd cymharu canfyddiadau eleni â chanfyddiadau 2023.*

## Ffigur 16: Y diwydiant radio (ac eithrio'r BBC), 2023/24

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth weithio'r DU | Pob gweithiwr radio yn y DU | Newid pwynt canran ers 2023[50] | Bauer | Global |
|---|---|---|---|---|---|
| **Rhyw** | | | | | |
| Menywod | 48% | 51% | -1pc | 56% | 50% |
| Menywod sy'n uwch reolwyr | - | 33% | -3pc | 42% | 30% |
| Rhyngryw | - | 0% | - | 0% | 0% |

[50] Sylwch fod ffigurau 2023 wedi cael eu hailgyfrifo i eithrio ffigurau radio'r BBC er mwyn bod yn gyson â sut mae'r BBC wedi darparu ei ddata eleni.

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth weithio'r DU | Pob gweithiwr radio yn y DU | Newid pwynt canran ers 2023[50] | Bauer | Global |
|---|---|---|---|---|---|
| Data anhysbys | - | 7% | +6pc | 21% | 0% |
| **Hil ac ethnigrwydd** | | | | | |
| Grŵp Ethnig Lleiafrifol | 16% | 13% | - | 6% | 17% |
| Pobl o grwpiau ethnig lleiafrifol sy'n uwch-reolwyr | - | *** | *** | *** | *** |
| Data anhysbys | - | 6% | - | 6% | 2% |
| **Anabledd** | | | | | |
| Gweithwyr anabl | 18% | 7% | - | 8% | 5% |
| Pobl anabl sy'n uwch reolwyr | - | 7% | - | *** | *** |
| Data anhysbys | - | 12% | +1pc | 12% | 4% |
| **Oedran** | | | | | |
| Dan 50 oed | 67% | 84% | - | 79% | 89% |
| 50 oed a hŷn | 33% | 16% | - | 21% | 11% |
| Data anhysbys | - | 7% | +1pc | 0% | 0% |
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | | | | | |
| LHD+ | 3% | 9% | -1pc | 8% | 10% |
| Data anhysbys | - | 20% | +2pc | 14% | 9% |
| **Crefydd** | | | | | |

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth weithio'r DU | Pob gweithiwr radio yn y DU | Newid pwynt canran ers 2023[50] | Bauer | Global |
|---|---|---|---|---|---|
| Crefyddol | 60% | 46% | -1pc | 46% | 44% |
| Dim crefydd | 40% | 54% | +1pc | 54% | 56% |
| Data anhysbys | - | 25% | - | 23% | 12% |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol – Galwedigaeth rhieni** | | | | | |
| Cefndir dosbarth gweithiol | 39% | *** | *** | *** | *** |
| Data anhysbys | - | 97% | - | 100% | 100% |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol – Addysg** | | | | | |
| Ysgol nad yw'n annibynnol | 93% | *** | -*** | *** | *** |
| Data anhysbys | - | 91% | -1pc | 100% | 100% |
| **Cyfrifoldebau gofalu** | | | | | |
| Cyfrifoldebau gofalu | 8% | 7% | ** | *** | *** |
| Data anhysbys | - | 90% | -1pc | 100% | 100% |

*** Fel yr esboniwyd ar dudalen 33, nid ydym wedi adrodd ar y newid pwynt canran ar gyfer cyfrifoldebau gofalu ers 2023 oherwydd esboniad o'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y diffiniad.*

# Ffigur 17: Darlledwyr Gwasanaeth Cyhoeddus yn y Gwledydd, 2023/24

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth weithio'r DU | Meincnod yr Alban | Meincnod Cymru | Pob gweithiwr teledu yn y DU | Newid pwynt canran ers 2023 | STV | S4C |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhyw** | | | | | | | |
| Menywod | 48% | 51% | 48% | 50% | +1pc | 53% | 65% |
| Menywod sy'n uwch reolwyr | - | - | - | 44% | +2pc | 52% | *** |
| Data anhysbys | - | - | - | 1% | -1pc | 1% | 56% |
| **Hil ac ethnigrwydd** | | | | | | | |
| Grŵp Ethnig Lleiafrifol | 16% | 6% | 5% | 19% | +1pc | 11% | *** |
| Data anhysbys | - | - | - | 13% | -2pc | 6% | 0% |
| **Anabledd** | | | | | | | |
| Gweithwyr anabl | 18% | 22% | 21% | 11% | +1pc | 18% | *** |
| Data anhysbys | - | - | - | 21% | -4pc | 12% | 56% |
| **Oedran** | | | | | | | |
| Dan 50 oed | 67% | 66% | 67% | 75% | -3pc | 77% | 67% |
| 50 oed a hŷn | 33% | 34% | 33% | 25% | +3pc | 23% | 33% |
| Data anhysbys | - | - | - | 5% | -5pc | 0% | 58% |

| Cynrychiolaeth yn ôl nodwedd | Meincnod poblogaeth weithio'r DU | Meincnod yr Alban | Meincnod Cymru | Pob gweithiwr teledu yn y DU | Newid pwynt canran ers 2023 | STV | S4C |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfeiriadedd rhywiol** | | | | | | | |
| LHD+ | 3% | 4% | 5% | 11% | +1pc | 14% | *** |
| Data anhysbys | - | - | - | 26% | -6pc | 19% | 58% |
| **Crefydd** | | | | | | | |
| Crefyddol | 60% | 40% | 51% | 43% | -1pc | 38% | 48% |
| Dim crefydd | 40% | 60% | 49% | 57% | +1pc | 62% | 52% |
| Data anhysbys | - | - | - | 26% | -9pc | 20% | 56% |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol – Galwedigaeth rhieni** | | | | | | | |
| Cefndir dosbarth gweithiol | 39% | - | - | 27% | -1pc | 31% | 31% |
| Data anhysbys | - | - | - | 45% | -11pc | 28% | 58% |
| **Cefndir economaidd-gymdeithasol – Addysg** | | | | | | | |
| Ysgol nad yw'n annibynnol | 93% | - | - | 87% | - | 91% | *** |
| Data anhysbys | - | - | - | 42% | -10pc | 22% | 57% |
| **Cyfrifoldebau gofalu** | | | | | | | |
| Cyfrifoldebau gofalu | 8% | - | - | 11% | ** | 17% | *** |
| Data anhysbys | - | - | - | 88% | -3pc | 54% | 100% |

*** Fel yr esboniwyd ar dudalen 33, nid adroddwyd ar y newid pwynt canran ar gyfer cyfrifoldebau gofalu ers 2023 oherwydd esboniad o'r hyn sydd wedi'i gynnwys yn y diffiniad.*

# A2. Sut rydym yn adrodd ar y data

**Sut rydym yn adrodd ar y data**

**Data 'gweladwy':** mae'r canrannau a gofnodwyd ar gyfer gweithwyr cwmnïau darlledu yn seiliedig ar y gweithwyr y mae eu gwybodaeth wedi cael ei rhannu ag Ofcom, yn hytrach nag ar gyfanswm gweithlu'r darlledwyr. Mae'r holl ffigurau yn yr adroddiad ysgrifenedig hwn yn defnyddio'r dull hwn ac rydym yn cyfeirio at hyn fel rhywbeth sy'n seiliedig ar ddata 'gweladwy'.[51] Rydym yn egluro hyn yn fwy manwl yn ein hadroddiad methodoleg.

**Data am dueddiadau:** yn 2022, roeddem wedi gwneud gwelliannau eang i'n harolwg o'r gweithlu, ac mae cafeatau wrth gymharu canfyddiadau newydd â data o flynyddoedd cyn 2022. Roedd rhai cwestiynau'n newydd, tra roedd eraill wedi cael eu diwygio – ar gyfer y rhain gallwn barhau i gymharu data â blynyddoedd blaenorol, ond dim ond ar y lefel uchaf (er enghraifft, cymharu grwpiau ethnig ehangach).[52] Mae ein data am dueddiadau ar lefel diwydiannau cyfun (er enghraifft, edrych ar y diwydiant darlledu i gyd, neu ar gynnydd yn y sectorau radio neu deledu yn unigol) yn cynnwys darlledwyr gwahanol yn dibynnu, er enghraifft, ar bwy sy'n dal trwydded yn ystod blwyddyn benodol neu ar bwy sydd wedi cwblhau agweddau gwirfoddol ein harolygon.

Ar gyfer ein **hofferyn hunan-asesu**, rydym yn canolbwyntio ein dadansoddiad ar y darlledwyr 'mwy' rydym wedi'u diffinio fel y rhai sydd â 100 a mwy o weithwyr, ac MG ALBA.[53] Mae'r darlledwyr hyn yn fwy tebygol o fod â'r adnoddau i ddilyn arferion gorau ar draws ystod ehangach o feysydd.

Mae'r data rydym yn ei gynnwys o'n **harolwg o'r gweithlu** yn ymwneud â gweithwyr yn y DU ym meysydd teledu neu radio; lle rydym yn cyfeirio at 'weithwyr' drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym yn golygu 'gweithwyr yn y DU'.

Mae rhagor o fanylion am ein harferion adrodd, gan gynnwys ar ddata 'gweladwy', data 'cyfanswm' a therminoleg arall, a'r newidiadau i'n harolwg o'r gweithlu, ar gael yn ein hadroddiad methodoleg cysylltiedig.

[51] Er enghraifft, pe bai darlledwr yn rhoi gwybodaeth i Ofcom am 80 allan o 100, byddem yn cyfrifo'r canrannau sy'n gysylltiedig â'r nodwedd honno ar gyfer yr 80 o weithwyr sydd wedi darparu eu data i ni. Byddai'r 20 sy'n weddill yn 'ddata anhysbys'. Mae data ar gyfer canrannau sy'n seiliedig ar ddata 'cyfanswm' a data 'gweladwy' yn unig ar gael yn ein hadroddiad data rhyngweithiol.
[52] Er enghraifft, gallwn gymharu data ar dueddiadau ar gyfer gweithwyr o gefndir gwyn, neu o grŵp ethnig lleiafrifol, ond ni allwn gymharu is-gategorïau unigol, fel 'Dwyrain Asiaidd/Dwyrain Asiaidd Prydeinig'. Edrychwch ar ein hadroddiad methodoleg i gael rhagor o fanylion.
[53] Drwy gydol yr adroddiad hwn, rydym yn nodi nifer y darlledwyr rydym wedi adrodd arnynt yn erbyn pob cwestiwn neu 'elfen' TegACh. Edrychwch ar ein hadroddiad methodoleg i gael rhagor o fanylion.